# ECO'R WYDDFA

RHIF 4 MEHEFIN 1976 Pris: 8g.

**Bwriad y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan yw adeiladu Canolfan Amgylchedd a gostiai £½m yn ôl prisiau 1974 tu ôl i'r maes parcio sydd ger Canoolfan bresennol Llanberis. Y B.C.C.T. fyddai'n talu'r gost adeiladu a'r Amgueddfa Genedlaethol yn talu am ei rhedeg.**

**Dydd Llun, Mai 17, cyfarfu swyddogion ac aelodau cynghorau lleol â chynrychiolwyr y B.C.C.T. a'r Amgueddfa Genedlaethol i drafod y Ganolfan. Ar ddiwedd y cyfarfod penderfynwyd rhoi cyfle i'r Cynghorau roi eu sylwadau ar y Ganolfan.**

**Dyma Eco'r Wyddfa drwy ganiatad caredig y B.C.C.T. yn cyhoeddi rhai o gynlluniau'r Ganolfan fel y gellwch chwi roi eich barn arni.**




# BE' GEWCH CHI AM £500,000?

Gan
DR. TOM PRITCHARD

Mae'r syniad o adeiladu Canolfan Amgylchedd, neu Oriel Llanberis fel y gelwir hi erbyn hyn, yn cyflawni tri phwrpas mewn un adeilad pwrpasol.

Yn gyntaf, amgueddfa ar arddangosfa o hanes bywyd cymdeithasol yr ardal, yn enwedig y newidiadau mawr a ddaeth yn sgîl cau'r chwarel a dyfodiad y B.C.C.T. Yn ail, canolfan adnoddau addysgol ar gyfer plant yr ardal a Gwynedd gyfan. Yn drydydd, Canolfan Gymdeithasol amgenach i Lanberis a'r pentrefi cyfagos.

Gosodwyd sylfeini'r Oriel mewn trafodaethau gyda'r diweddar R.H. Owen pan geisiwyd cael darpariaeth gymdeithasol yn sgîl adeiladu'r Orsaf Drydan.

Cais y B.C.C.T. i'r pensaer enwog Syr Frederick Gibbard oedd cynllunio adeilad i ddiwallu anghenion y Bwrdd am ganolfan i'r ymwelwyr a fydd yn tyrru i weld yr orsaf yn ystod misoedd yr haf, a chanolfan adnoddau ar gyfer plant ysgol Gwynedd. Bwriad yr Amgueddfa Genedlaethol yw datblygu'r agwedd yma drwy ddefnyddio Oriel Llanberis fel asgell bwysig i ledaenu eu gwaith o Gaerdydd.

Yn olaf, ond yn holl bwysig, bydd Llanberis yn cael defnydd o neuadd, ystafell ddarlith a llyfrgell yn ogystal â'r caeau chwarae newydd.

Teimlad rhai yw nad yw'r pentrefi cyfagos yn cael dim o'r fenter. Mae'r cynlluniau'n ddigon ystwyth i sicrhau cydweithrediad rhwng pwyllgorau lleol a'r Amgueddfa i wneud defnydd o'r Ganolfan gyda'r Amgueddfa yn cymeryd y baich trwm o gyfarfod y gost weinyddol.



BLAEN



CEFN

Yn y cyfarfod gyda'r cynghorwyr lleol pwysleisiwyd parodrwydd y Bwrdd a'r Amgueddfa i drafod yn llawn y ddarpariaeth gymdeithasol sy'n cael ei chynnig.







Gan PAT LARSEN (Cyngor Arfon)

**Yn gyntaf oll gadewch inni gytuno bod cynllun Canolfan Amgylchfyd yn Llanberis yn gynllun ardderchog ond hefyd gadewch i ni gytuno mai ar gyfer ymwelwyr y bydd y ganolfan hon yn bennaf; mae hyn yn ddealladwy gan na fu trafod o gwbl gyda chynghorwyr Gwynedd nac Arfon am ofynion yr ardal.**

Daeth y project gerbron y Cynghorwyr am y tro cyntaf ar Fawrth 10fed eleni. Y dirgelwch ydyw sut mae'r Bwrdd Trydan a'r Bwrdd Gwarchodaeth Natur o bawb wedi dod at ei gilydd i ddweud wrth yr ardal sut i wario £500,000.

Mae'r ardaloedd o gwmpas, yr aflonyddwyd arnynt gan y Cynllun Trydan yn dlawd iawn. Yn y gorffennol cawsom chwareli llechi mwyaf y byd yma, ond yn sgil hyn ni chafodd yr ardal ond tlodi a llwch yr ysgyfaint a phoen a phryder o'r herwydd. Yn awr yr ydym am gael Cynllun Trydan yma, gadewch inni sicrhau ein bod yn cael rhywbeth gwell na'r project hwn—project a fydd o dan reolaeth yr Amgueddfa Genedlaethol.

Beth yw anghenion yr ardal dlawd ond diwylliedig hon? Chi, yr ardalwyr, sy'n gwybod yn bendant a neb arall. Rhai awgrymiadau sydd yn cael eu trafod yn awr ydyw:— rhannu'r arian rhwng y pentrefi fel y gall pob pentref godi ei ganolfan ei hun. Byddai hyn yn dod â bywyd newydd i'r ardal. Ar ben hyn oll mae rhai yn awgrymu rhoi peth o'r swm enfawr i Ganolfan Chwaraeon Caernarfon. Byddai hyn er lles yr holl ardal.

Gan DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

Dyma, felly, am y tro cyntaf yn gyhoeddus y ffeithiau a hefyd y dadleuon yn erbyn ac o blaid y Ganolfan anferth hon.

Gwelwch fod dau begwn i'r ddadl ac ar ôl cyflwyno'r ffeithiau yma mae'n ddyletswydd arnom fel ardalwyr eu pwyso a'u mesur yn ofalus iawn.

Rhown gyfle i chi fynegi eich barn yn gyhoeddus yn y rhifyn nesaf o'r ECO.

Aethom i drafferthion mawr i gael y ffeithiau – felly dewch chwithau, 'sgwennwch i mewn er mwyn ceisio rhoi rhyw fath o syniad i'r awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r ganolfan beth yn union yw eich barn chwi.

# ECO'R WYDDFA

RHIF 4 MEHEFIN 1976

Golygydd : *Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.*

*Ffôn : Caernarfon 3719.*

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.*


## WEDI HIR DDISGWYL

**Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol hen Ysgol Brynrefail yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug nos Iau, Mehefin 10, 1976 am 7.30 p.m.**

Bydd cynrychiolwyr y Cyngor Sir yno i wyntyllu'r mater ac i ateb eich cwestiynau. Y cadeirydd fydd Mr. John Morris, Aberdaron Disgwylir cefnogaeth gref yr ardal gyfan yn y cyfarfod hwn. Dowch yno yn llu. Mae'r hen ysgol yn haeddu llond neuadd ar y noson hon — dewch yno i gefnogi, i holi, ac i ddangos eich anfodlonrwydd ynglŷn â bwriadau'r Cyngor Sir.

Eisoes gwahoddwyd cynrychiolwyr o bob pentref yn y fro i gyfarfod yn Festri Brynrefail i wneud trefniadau ynglŷn â'r cyfarfod cyhoeddus. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn nos Fercher, 26ain o Fai am 7.30p.m.

Bydd posteri'n ymddangos ymhob pentref yn rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â'r cyfarfod cyhoeddus.

**Peidiwch â gadael i'r genhedlaeth a ddaw ddweud na fu i ni, y genhedlaeth hon, ymdrechu i gadw'r hen ysgol i'n dibenion ni yng Ngwynedd. Cofiwch y dyddiad — NOS IAU, MEHEFIN 10fed.**


CWESTIWN
Be' di'r ffordd hawsa' o symud llwyth o Lanber i Landudno, o Deiniolen i Dundee ac o Fethel i Fanceinion?

ATEB

**H.F. OWEN**

YMGYMERWR CLUDIANT — HAULAGE CONTRACTOR

BRON MEILLION

**Bethel**

Ffôn : Port Dinorwig 487

Fe gariwn rywbeth i rywle (bron!)


# LLYTHYRAU

*15 Ffordd Ty Du,*
*Llanberis.*

*Annwyl Syr,*

*Fe garwn dynnu eich sylw at adroddiad sydd yn ymddangos yn y "Newydd", taflen newyddion Cyngor Sir Gwynedd, ynglŷn â chwtogi ar wario.*

*Bydd gwario llai ar y ffyrdd yng Ngwynedd o ychydig y flwyddyn hon. Llai o waith i weithwyr tu allan (contractors) ond bydd nifer y gweithwyr yn aros yr un fath.*

*ADRAN GYMDEITHASOL*

*Cwtogi eto. Mae galwadau mawr ar yr Adran hon. Yn ôl fy marn i, dyma Adran na ddylid cwtogi o gwbl arni gan ei bod yn dwyn beichiau trwm ac yn cael ei beio pan fydd achlysur go annifyr yn digwydd. Ond beth a fedrant ei wneud os na chânt fwy o staff? Nid yw'n iawn ei barnu gan rai nad ydynt yn gwybod beth sydd wrth y gwraidd.*

*ADDYSG*

*Yn ôl Mr. Healy, bydd cynlluniau a darpariaethau addysgol eraill yn mynd ar y silff dros dro. Tybed mai dros dro y byddant neu a fyddant wedi llwydo ac o'r golwg dan lwch?*

*Sefyllfa drist yw hon yn ôl pob golwg.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Edward O. Thomas*

*Cefn Farm,*
*Llanddeiniolen.*

*DIOLCH ETHOLIAD*

*Etholaeth Cyngor Dosbarth Arfon*

*At Etholwyr Cyngor Dosbarth Arfon Ward 21ain (Bethel, Llanddeiniolen a Rhiwlas)*

*Dymunaf fanteisio ar y cyfle hwn i ddatgan fy niolchgarwch ichwi am yr ymddiriedaeth a ddangoswyd ynof trwy fy ethol yn ddi-wrthwynebiad am dymor arall ar Gyngor Dosbarth Arfon.*

*Gallaf eich sicrhau y bydd imi eich gwasanaethu hyd eithaf fy ngallu, ac yn barod bob amser i gynorthwyo un ac oll ohonoch a ddaw ataf gydag unrhyw broblem neu anhawster a ddaw i'ch cwrdd.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*SAM JONES.*

*Jervaulx,*
*57 Maes yr Hafod,*
*Porthaethwy.*

*Annwyl Syr,*

*Gyda hyfrydwch mawr y darllenais hanes dadorchuddio cofeb i T.Rowland Hughes yn Eco'r Wyddfa.*

*Yn y pum degau yn ysgol wreiddiol Brynrefail bu dadorchuddio tabled i'r diweddar T. Rowland Hughes ar lechen las o chwarel Dinorwig a oedd yr adeg honno mewn llawn bri.*

*Fel aelod o gôr yr ysgol, 'rydwyf yn siwr fod llu ohonom mewn dyled fawr i'r diweddar Mr. W. James, gynt o Snowdon View, Llanberis am ein cyflwyno, fel plant ysgol, i'r geiriau anfarwol "Tydi, a roddaist" ar alaw wych Arwel Hughes, a chloi y rhaglen gyda'r ddau waith anfarwol a chofiadwy yma.*

*Diolch am eich papur diddorol a ffres, a phob hwyl i chwi yn y dyfodol.*

*Yn gywir,*
*Ann Valmai Stead*
*(Glanfa gynt!)*

DIOLCH ETHOLIAD

Ceisiaf ddiolch i bawb a bleidleisiodd imi yn yr etholiad diwethaf am sedd ar Gyngor Bwrdeisdref Arfon, ac hefyd i'r ddau ymgeisydd arall am fy llongyfarch ar ennill yr etholiad.

Carwn ddiolch hefyd i Eco'r Wyddfa am roi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Yn ddiffuant,

**Jacob James.**



DRAENOG DYSGEDIG

Poeni am addysg eich plant? Dyma gyngor Draenog — anfonwch eich plant i ysgol breifat Gordonstoun. Dim ond £1860 y flwyddyn yw'r costau dysgu (fe wneir trefniadau arbennig ar gyfer dysgu'r Gymraeg).

Da chi ddim am eu hanfon yno? Wel, 'na fo, chi biau'r dewis. Rhyddid yr unigolyn, hwnna ydi o!

# BETHEL

## MERCHED Y WAWR

Yn y cyfarfod blynyddol penodwyd y canlynol yn swyddogion ar gyfer y tymor nesaf : Mrs. Nia Parry-Jones (Llywydd); Mrs. E. Williams (Is-Lywydd); Mrs. Helen Bebb (Ysgrifennydd); Mrs. Mabel Jones (Is-Ysgrifennydd); Mrs. Anne Elis (Trysorydd); Mrs. Beti Owen (Is-Drysorydd); Mrs. Elizabeth Hughes (Ysg. y Wasg); Mrs. Megan Evans (Dosbarthwr y Wawr); Mrs. Ellen Jones (Cynrychiolydd Pwyllgor Rhanbarth). Diolchwyd i'r hen bwyllgor i gyd am y gwaith da a wnaed i sefydlu'r gangen yn ei blwyddyn gyntaf ac yn enwedig i Mrs. Nerys Williams, yr Ysgrifennydd.

Nos Fercher, Mehefin 9fed, bydd trip i Ynys Môn gyda lluniaeth ysgafn i orffen y noson.

## PRIODAS RUDDEM

Ar y 15ed o Fai dathlodd Goronwy a Helen Owen, Y Ddôl, ddeugain mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchion calonnog i'r ddau.

## CYMORTH CRISTNOGOL

Mewn cyfarfod nos Lun diwethaf etholwyd y swyddogion hyn: Mrs. Fanny Owen (Llywydd); Mrs. Ceinwen Williams (Ysg.); Mrs. Ruby Harrison (Trys.). Trefnwyd i gasglu o ddrws i ddrws yr wythnos nesaf.



*Jessica Jane Williams a Helena Williams, dwy chwaer amryddawn iawn o Gefn Rhos, Bethel. Mae'r ddwy wedi derbyn gwobrau dirifedi ar hyd a lled Prydain mewn gwahanol gystadleuthau canu ac adrodd.*

# LLANBERIS

### GWIBDAITH I DDOLWAR FACH

Sadwrn, Mehefin 12, 1976. Cychwyn am 9 o Gapel Gorffwysfa a chodi yng ngwaelod Ffordd Capel Coch, Gwesty'r Fictoria a Maes Derlwyn. Cyrraedd Croesoswallt erbyn amser cinio. Teithio i weld Dolwar Fach, Dolanog (Y Capel Coffa), y bedd ac eglwys y teulu yn Llanfihangel yng Ngwynfa, Capel John Hughes, Pontrobert, a chapel Pontrobert. Adref drwy'r Bala. Aros yno i gael pryd o fwyd. Y gost: £1 i oedolion. 50c i blant. Yr arian i'w dalu i Mr. John Davies, 6 Rhes Efrog erbyn y dydd olaf o Fai.

### DIOLCH

Annwyl Olygydd,

Dymunaf ddiolch o galon i drigolion Llanberis, ymhob cylch o fywyd am eu caredigrwydd tuag at ein diweddar chwaer, Mrs. Sennar, 8 Yankey St., Llanberis a fu farw 29ain o Ebrill yn 89 oed. Hebryngwyd ei gweddillion i Fynwent Pentir, gyda gwasanaeth yn Eglwys St. Keidiol yng ngofal yr Archddeon Gilbert Wright. 'Roedd ein diweddar chwaer yn hanu o Ddeiniolen. Bu'n trigo rai blynyddoedd yn Rhiwlas a Brynrefail cyn sefydlu yn Llanberis lle bu'n hapus am rai blynyddoedd.

Ydwyf yn ddiolchgar,
ar ran y teulu,
John D. Evans,
Maes-y-dref, Deiniolen.

### CLWB Y MAMAU A GWRAGEDD IEUANC

Yn y Ganolfan ar Fawrth 31 cafwyd sgwrs ar 'Telathrebu' gan Mr. Peter Willet o Fangor gyda ffilm. Mrs. Eirlys Ellis oedd yn y gadair a thalwyd diolch gan Mrs. Gloria Pitts. Y gwesteiwragedd oedd Mrs. Jean Roberts, Mrs. Ruth Jones a Mrs. Iris Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs. Gwyneth Kelly.

Ar Ebrill 28ain diddorwyd yr aelodau gan Annette, Olwen a Marina, tair chwaer ifanc o Ddinorwig, ynghyd a Pharti Glyn Rhonwy. Mwynhawyd y noson gan bawb. Y gwesteiwragedd oedd Mrs. Carys Hughes, Mrs. Elizabeth Jones, Mrs. Sybil Evans a Mrs. Ceinwen Williams.

Nos Fercher, Mai 12fed, etholwyd swyddogion am y tymor. Cadeirydd – Mrs. Eirlys Ellis. Trysorydd–Mrs. Dilys Phillips. Ysgrifennydd–Mrs. Gloria Pitts. Ysgrifennydd i'r newyddiadur–Mrs. Betty Roberts. Pwyllgor–Mrs. Ceinwen Williams, Mrs. Nettie Williams, Mrs. Enid Hughes, Mrs. Iola Sellars, Mrs. Laura Williams, Mrs. Gwyneth Kelly, Mrs. Jean Roberts, Mrs. Nellie Morris, Mrs. Catherine Williams, Mrs. Katie Lewis. Y gwesteiwragedd oedd – Mrs. Mary L. Case, Mrs. Vivien Thomas, Mrs. Betsy Jones, Mrs. Myra Price. Enillwyd y raffl gan Mrs. Laura Williams a Mrs. Betsy Jones. 'Roedd y raffl yn rhoddedig gan y gwesteiwragedd.

### PLAID CYMRU

Nos Iau, Mai 13eg, cafwyd Noson Goffi ac Adloniant lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Cymerwyd rhan gan Robert Wyn Roberts (Baritone), enillydd yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, Gareth Huw (Baritone), Bethan a Nia Jones (Deuawdau), Delyth Parry (Clarinet), Rhiannon Pritchard (Ffliwt) a Bert Parry (Gitâr). Selwyn Pritchard oedd yr arweinydd a'r cyfeilyddion oedd Ann Pritchard a Bert Parry. Gwnaethpwyd y coffi gan Mrs. Appy Jones, Mrs. Sara Fosse a Mrs. J.M. Jones.

Cynhelir Helfa Drysor ar nos Iau Mehefin 10. Cychwynnir o faes parcio'r Ganolfan rhwng 6 a 7 o'r gloch. Gofynnir i'r rhai a hoffai gymeryd rhan roi eu henwau i Bert Parry neu Ann Pritchard erbyn Mehefin 3ydd.

### GWELLA

Da gweld fod Mrs. Ann Parry, Stryd Newton yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty. Hefyd Robin Wyn, mab chwe mis oed Mr. a Mrs. G. Owen, Tŷ Capel Gorffwysfa.

### YN YR YSBYTY

Dymunir gwellhad buan i Mr. George Raynolds sydd yn Ysbyty Eryri, a hefyd i Mrs. Julia Sellars, Stryd Newton.



*Rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn ystod eu hymweliad â safle'r Bwrdd Trydan yn ddiweddar.*

### ARHOLIAD SIROL

Bu Debra Ellis, 7 Stryd Efrog, aelod o Ysgol Sul Preswylfa (MC) yn llwyddiannus iawn yn yr Arholiad Sirol. Bu mewn cyfarfod arbennig o'r Henaduriaeth yn Jerusalem, Bethesda yn cael ei gwobrwyo yn ddiweddar. Llongyfarchion iddi.

### EU DERBYN

Derbyniwyd Noel Jones a Dewi Roberts (Capel Coch), Mona Lewis a Valerie Parry (Preswylfa) a Gareth Williams (Gorffwysfa) yn gyflawn aelodau ar y Sul cyntaf o Fai.



***Mr. Wilbert Davies, gofalwr Ysgol Dolbadarn, yn derbyn Tystysgrif y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) am ei waith yn dysgu plant yr ysgol i feicio dros amser hir gan Mr. Gwyndaf Jones, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd. Anrhydedd arbennig, gan mai dim ond pump tystysgrif a gyflwynwyd trwy Wynedd gyfan.***

## ANGORFA LLANBERIS

Mae Cyngor Cymuned Llanberis am gymeryd drosodd les "Angorfa", 2 Stryd Ffynnon, sef hen gartref y bardd a'r llenor enwog, T. Rowland Hughes. Ar wahân i'w ddefnyddio fel Canolfan i'r Cyngor gyfarfod ynddo, cyhoeddir maes o law yn Eco'r Wyddfa y defnydd ychwanegol a wneir o'r tŷ. Nid oes trafodaethau wedi cymeryd lle eto, a gobeithir cael cyfarfodydd rhwng aelodau'r Cyngor Cymuned a'r gwahanol fudiadau yn Llanberis yn y dyfodol agos.

PARHAD NEWYDDION BETHEL

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Fercher, Mai 19, yn yr ysgol dan lywyddiaeth Mrs. Margaret Hughes cafwyd arddangosfa o waith a wneir gan y methedig yn yr ardal gan Mrs. M.U.Jones, Pontrug. Diolchwyd i Mrs. Jones gan Mrs. Eunice Williams.

Nos Wener, Mehefin 18, bydd y gangen yn dathlu ei phenblwydd yn 30 oed gyda swper yng Nghastell Rhuthun. Bydd y bws yn cychwyn o'r Ysgol am 5.15p.m.

### YR EISTEDDFOD

Pwyllgor yr Eisteddfod yw : Llywydd – Mr. Alwyn Jones; Is-Lywydd–Parch. W.R.Williams; Ysgrifennydd–Mrs. Ann Evans; Trysorydd–Mrs. J.Foulkes. I godi arian ar gyfer yr Eisteddfod trefnwyd taith gerdded o Fethel i Ddeiniolen, ac yn ôl. Cychwynnir o Gapel Cysegr am 1 o'r gloch dydd Sadwrn, Gorffennaf 17. Mae'r ffurflen gasglu arian i'w chael gan Mrs. Fanny Owen.

### TRIP YR YSGOL

Bore Sadwrn, Mai 29, bydd deuddeg o blant yr ysgol dan ofal Mr. Islwyn Jones yn rhan o barti o ddeugain o blant yn cychwyn am Hull, y cam cyntaf ar eu taith wythnos i'r Iseldiroedd. Yn y parti hefyd bydd plant o ysgol Llanrug a Glanadda. Bydd adroddiad o'r daith yn y rhifyn nesaf.

### PLAID CYMRU

Nos Wener, Mai 22, agorwyd Ffair Wanwyn y Blaid gan Dafydd Wigley A.S. Cafwyd Ffair lewyrchus iawn ar waethaf y tywydd a gwnaed elw o £60. Diolch o galon i bawb am eu rhoddion ac i ferched y Gangen am drefnu'r noson.

### CYDYMDEIMLAD

Dydd Iau, Mai 13eg, yn 68 mlwydd oed bu farw Mr. Gwilym Thomas, 36 Bro Rhos. Mae'n cydymdeimlad llwyraf â'r teulu.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............
Eric Morris

Arvonia Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254



# Atgof o'r Archifau

Dyma lun o blant Ysgol Gynradd Llanddeiniolen yn y flwyddyn 1900. Nid oes llawer o wybodaeth ar gael am y llun hwn. All rhywun ein cynorthwyo? Oes rhywrai'n fyw heddiw? Pwy oedd yr athrawon?



### DRAENOG A'R MELLTITH METRIG

Daeth i law wybodaeth ddefnyddiol ar y naw oddi wrth y Bwrdd Metrig : —

Mae hanner pwys o jam yn union 0.567321 kilogram!!

'Na fo, 'da ni'n gwybod rwan.

Ôl-nodyn: Tra'n sôn am jam, ydych chi wedi sylwi sut mae cwmni Hartley yn ceisio'n camarwain? Cynlluniwyd eu potiau jam fel ag i ymddangos yn jariau pwys llawn (16 owns). Sylwch ar y print mân ar label y jariau jam, — jariau deuddeg owns ydynt.

### DRAENOG 'DI DOTIO

Nid yn aml y bydd Draenog yn canmol cwmniau cyfalafol mawr, ond, am y tro, 'ma fo:

Llongyfarchion i gwmni Curry's am roi i'r Gymraeg ddyledus le ar brif arwyddion ei siop yng Nghaernarfon. Cofiwch alw i'w gweld a'u canmol.

# O SENEDDAU'R FRO

Wel, dyna'r etholiadau lleol trosodd. Pob hwyl i chi a ddewiswyd i'n cynrychioli. Fe ŵyr y rhai ohonom sy'n ymwneud â llywodraeth leol mai gwaith di-ddiolch yn aml yw gwaith cynghorydd heddiw. Ie, wir, pob hwyl i chi, a boed ichi amynedd Job, doethineb Solomon a chroen fel eliffant.

I aros hefo eliffantod – tybed nad dipyn o eliffant gwyn fydd y Ganolfan y bwriedir ei chodi yn Llanberis? Y bwriad yw codi amgueddfa ar gyfer ymwelwyr yn fwyaf arbennig, ac fe gyst filiynau o bunnoedd, tra mae holl bentrefi bro Eco'r Wyddfa yn crefu am neuaddau addas fel y gallant gadw a diogelu'r diwylliant lleol. Gobeithio fod Swyddogion y Bwrdd Cynhyrchu Trydan a Chynrychiolwyr yr Amgueddfa'n sylweddoli ac yn clywed mai "rhennwch yn ein mysg" yw'r gri sy'n atsain o bob rhan o'r fro. Mae'n ddyddiau rhy ddyrys i wastraffu arian ar anrhegion di-fudd, er cyfoethoced y rhoddwr.

Fwrdd Trydan, rhowch gyfran o'ch cyfoeth tuag at wir anghenion ardaloedd sy'n methu â chynnal eu diwylliant oherwydd diffyg canolfannau addas. Ac os oes raid cael Amgueddfa Warchodfa Natur, beth am hen Ysgol Brynrefail? Cyngor Arfon a Chyngor Gwynedd, mae gennych gyfrifoldeb. Gofalwch am holl ardaloedd ein bro.

### CADEIRYDDION

Mis Mai yw mis dewis cadeiryddion am y flwyddyn. Rhaid i bob Cyngor Cymdeithas gynnal eu cyfarfod blynyddol yn ystod mis Mai, a dewis Cadeirydd ac is-Gadeirydd yn y cyfarfod hwn. Mae hyn yn ofynnol dan gyfraith.

Cadeirydd newydd Cyngor Llanddeiniolen yw Mr. John A. Griffith, Clwt-y-bont, a'r Is-Gadeirydd yw Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun. Da gweld merched yn ymddiddori mewn llywodraeth leol ynte?

### DIGWYDDIAD HANESYDDOL

'Roedd yn ddigwyddiad hanesyddol pan etholwyd Mr. Jacob James fel cynrychiolydd Deiniolen a Dinorwig ar Gyngor Arfon. Mae Mr. James eisoes ar y Cyngor Cymdeithas, a dyma'r tro cyntaf ers pan mae Mr. Selwyn Griffith yn glerc Cyngor Llanddeiniolen (a bydd yn 21 mlynedd eleni) i aelod o'r Cyngor fod yn aelod o'r Cyngor Dosbarth hefyd.





CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y Marina AR GARREG EICH DRWS.

CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

GAREJ MINFFORDD

BRITISH LEYLAND Morris

BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS
FFÔN
Y FELINHELI 451

# TARIAN ECO'R WYDDFA



Ysgol Dolbadarn yn ymosod ar gôl Penisarwaun yn ystod y chwarae.



.......a Phenisarwaun yn ymosod ar Bethel.



*Pritchard, Keith Evans, David Arfon Hughes a Paul Thomas.*

### DIM GLAW – OND LEFEL Y DWR WEDI CODI

**Mynegodd Cyngor Cymuned Llanberis eu pryder i'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan a Bwrdd Afonydd Gwynedd ynglŷn â lefel y dŵr yn Llyn Padarn.**

Roedd lefel y dŵr wedi codi'n uwch na'i lefel naturiol er nad oedd fawr o law wedi disgyn yn ddiweddar.

Mewn llythyr i'r Cyngor Cymuned dywedodd cynrychiolydd o'r Bwrdd Trydan mai'r rheswm am hyn oedd fod argae bychan wedi ei godi dros dro yn yr afon wrth ymyl pont newydd Penllyn i roddi cyfle iddynt adeiladu cylch o gerrig o gwmpas sylfeini'r bont. Cymerai'r gwaith arbennig yma tua thair wythnos i'w gwblhau.

Felly, drigolion Llanberis a Chwm-y-glo, eisteddwch yn ôl a rhowch eich traed i fyny, – 'does fawr o berygl i'r hen lyn orlifo – ar hyn o bryd beth bynnag!



*Parti Eryri yn dathlu ar ôl deng mlynedd o ganu a difyrru ar hyd a lled Cymru a Lloegr.*

### YN EISIAU

**Rhywun i fod yn gyfrifol am anfon Archebion Post Eco'r Wyddfa bob mis. Darperir stampiau ac amlenni!**

**Ymofynner â Selwyn Williams, Trefnydd Gwerthiant, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.**

### STORI DWLCIOG

Myharen wedi dod i bori'r gwellt o gwmpas Llyfrgell Llanberis. Gwelodd ei lun yn y ffenest fawr. Meddyliodd mêt mai gelyn-fyharen oedd yno. Choeliech chi byth be' ddigwyddodd wedyn! Dyma yn sicr y tro cyntaf i lyfrgellydd orfod troi myharen allan!


10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E.WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS** FFÔN 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


### ARCHEB BLWYDDYN ECO'R WYDDFA

**Drwy'r post (12 rhifyn)**

**£2**

Enw ____________________

Cyfeiriad ____________________

____________________

____________________

**Anfoner at y Trefnydd Gwerthiant : Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

### YSGOL BRYNREFAIL
### YMWELWYR O FADAGASCAR A RHODESIA

Yn ystod y mis diwethaf bu dwy ymwelydd yn rhoi hanes eu gwaith mewn gwledydd tramor i'r chweched dosbarth. Ar brynhawn dydd Gwener, Mai 7fed, daeth Miss Ceinwen Mathias, Is-Ysgrifennydd C.E.W.C. yng Nghaerdydd i roi ffilm o Madagascar a'i hanes hi fel athrawes gyda'r Gwasanaeth Gwirfoddol yno. Dydd Mawrth, Mai 18fed, cafwyd darlith a thrafodaeth ddiddorol arall, y tro hwn ar Rhodesia, gan Miss Beckerleg, a fu'n genhades yno am rai blynyddoedd.

### TRIPIAU

Bu dosbarth llenyddiaeth Saesneg y bumed flwyddyn yn yr Wyddgrug nos Fercher, Mai 5ed, yn gweld y ddrama, "School for Scandal" gan Sheridan. Perfformiwyd y ddrama yn Theatr Clwyd gan Gwmni'r theatr.

Ar Fai 12fed bu aelodau'r dosbarth Cymraeg y chweched flwyddyn ar gwrs undydd yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Yno cafwyd darlithoedd diddorol ar y gwaith Lefel'A' gan Derec Llwyd Morgan, Dafydd Glyn Jones a John Gwilym Jones.

Ar Fai 20fed bu dosbarthiadau 1E, 2D a 3D yn ymweld â chynefin Syr T.H.Parry-Williams yn Rhyd-ddu ac yna ymlaen i Feddgelert.

### DRAMAU

Yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd perfformiwyd dwy ddrama yn yr ysgol, un gan Gwmni Drama dros 15 oed yr ysgol, a'r llall gan y Cwmni Drama dan 15 oed., "Lledaenu'r Newyddion" oedd drama'r Cwmni hyn. Perfformiodd y Cwmni iau ddrama "Y Fantell Fraith". Roedd y ddau gwmni yn ymgeisio yng nghystadleuaeth ddrama Eisteddfod yr Urdd. Cymerodd dros hanner cant o staff a phlant yr ysgol ran yn y ddwy ddrama.

### PEL RWYD LLANBERIS

Llongyfarchion cynnes i dim pêl rwyd Cangen yr Urdd Ysgol Dolbadarn Llanberis, ar iddynt gael eu dewis i gynrychioli Sir Gaernarfon yn y gystadleuaeth genedlaethol a gynhelir ym Mhorthaethwy wythnos yr Eisteddfod. Aelodau'r tîm yw Dilys Wyn Jones, Carol Wyn Jones, Elaine Jones, Rhian Owen, Jane Anthoine, Michelle Thomas, Margaret Morris Amanda Sellars a Janice W. Jones.



### ENILLYDD CENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i Jayne Anthoine, Haulfryn, ar ddod yn gyntaf drwy Gymru am waith gwnio dan 12 oed. Arddangosir ei gwaith yn yr Eisteddfod ym Mhorthaethwy.



*Marian a Maldwyn Williams, y Vitrix a'r Victor Ludorum.*



*Maldwyn Williams, y Victor yn clirio'r bar mewn Naid Uchel.*



*Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau gorau, o'r chwith i'r dde O.W.Sinclair, Emyr Roberts, Dafydd Evans, Carol Ann Jones, Alison Jones a Julie Clarke.*

## Y CYFARFOD ATHLETAU

Dyma restr o enwau'r plant fu'n fuddugol yn y Cyfarfod Athletau.

**Rhedeg 100 metr.** Maldwyn Williams (Bechgyn Ieuaf); Karen Williams (Genethod Ieuaf); Dafydd Evans (Bechgyn Iau); Anwen Hughes (Genethod Iau); Richard L. Jones (Bechgyn Hynaf); Julie Clarke (Genethod Hynaf).

**Rhedeg 200 metr.** Maldwyn Williams (Bechgyn Ieuaf); Karen Williams (Genethod Ieuaf); Dafydd Evans (Bechgyn Iau); Anwen Hughes (Genethod Iau); Gareth W. Williams (Bechgyn HYnaf); Julie Clarke (Genethod Hynaf).

**Rhedeg 400 metr.** Dafydd Evans Bechgyn Iau); Elizabeth Jones (Genethod Iau); Gareth Williams (Bechgyn Hynaf); Iorwen Parry (Genethod Hynaf).

**Rhedeg 800 metr.** Maldwyn Williams (Bechgyn Ieuaf); Karen Williams (Genethod Ieuaf); Dafydd Evans (Bechgyn Iau); Ann Jones (Genethod Iau); Gareth Williams (Bechgyn Hynaf); Marion Williams (Genethod Hynaf).

**RHEDEG 1500 metr.** Anwen Hughes (Genethod); Maldwyn Williams (Bechgyn Ieuaf); Dafydd Evans (Bechgyn Iau); Wyn Evans (Bechgyn Hynaf).

**Taflu'r Waywffon – Bechgyn.** Kevon Jones, G. Jones ac A. Lambrecht. **Genethod** – Helena Williams, Kathy Williams a Stella Sharpe.

**Taflu'r DDisgen – Bechgyn** A. Williams, Gwyndaf Jones a Richard Jones. **Genethod** – Julie Leatherbarrow, Eirian Williams a Stella Sharpe.

**Taflu'r Pwysau – Bechgyn** E. Owen, G. Williams, D. Jones. **Genethod–** Julie Leatherbarrow, Geurwen Griffiths a Julie Bott. **Naid Uchel – Bechgyn** – O.W.Sinclair, G. Jones, Emyr Roberts. **Genethod–** Susan Williams, Debbie Morton a Julie Clarke.

**Naid Hir – Bechgyn** D. Brailsforth, Dafydd Evans, Arwel Thomas. **Genethod–** Alison Jones, Debbie Morton a Julie Clarke. **Naid Driphlyg–Bechgyn** O.W.Sinclair, Bryn Hughes ac Emyr Owen. Rhain fydd yn cynrychioli'r ysgol yng Nghyfarfod Athletau Arfon ym Mangor ar Fai 27. Gwelir eu lluniau oll yn y grŵp ar y dudalen ôl.



Gareth Williams yn ennill y ras 800 medr, Wyn Evans, Emyr Owen a John T. Williams wrth ei sodlau.


## YN EISIAU

## HELP!

HELP gan rai o bob oedran
i blygu Eco'r Wyddfa
nos Iau, Gorffennaf 1af am 6.30 – 7.00
yng Ngwasg Gwynedd,
Nant Peris.

## YSGOL ARBENNIG PENDALAR

**Yn flynyddol, ym mis Mehefin neilltuir un wythnos yn arbennig i rai â nam meddyliol arnynt. Ledled Prydain bydd gweithgareddau o bob math yn cael eu cynnal mewn ysgolion Arbennig, Canolfannau Hyfforddi a chan wahanol fudiadau fel Cymdeithasau o rieni a charedigion y plant yma. Yr wythnos sydd wedi ei neilltuo eleni yw Mehefin 20-26.**

Yng Ngwynedd, fel pob rhan arall o'r wlad, mae darpariaethau addysgol a chymdeithasol i blant dan anfantais meddyliol. I Ysgol Arbennig Pendalar yng Nghaernarfon y bydd y plant o ardal Eco'r Wyddfa yn mynd yn ddyddiol. Mae car neu fws yn galw amdanynt bob bore i gyrraedd Pendalar erbyn 9.15 a.m., a'u cludo cyn agosed i'w cartrefi ag sydd modd bob prynhawn.

Mae 39 o blant rhwng 2-18 oed o ardaloedd canolog y Sir, o Benygroes i Fethesda ac o Fangor i Ddeiniolen. Hyfforddir hwy gan bedair athrawes, un athro a phum gweinyddes feithrin. Yn yr ysgol mae un dosbarth gofal arbennig i'r plant ieuengaf a'r rhai gyda mwy nag un nam arnynt, dosbarth meithrin, dau ddosbarth i'r plant iau ac un dosbarth i'r plant hynaf. Ceisir dysgu'r plant i edrych ar ôl eu hunain, gwisgo, bwyta, eu dysgu i goginio, gwnio, trin celfi coed, garddio, cymdeithasu ac os yw'n bosibl eu dysgu i drin arian, darllen ac ysgrifennu. Bydd yr athrawon yn mynd â'r plant allan i'r gymdeithas mor aml ag sydd bosibl.

Fel cyfraniad tuag at yr Wythnos Nam Meddyliol byddant ym Mhendalar yn cynnal Ffair Haf yn yr ysgol ar ddydd Sadwrn, Mehefin 19eg am 2.00 p.m. Agorir y ffair gan Syr Wymff ap Concord a Plwmsan y Twmffat Twp o "Teliffant". Bydd bwyd ar gael yma a stondinau o bob math. Dydd Mawrth, Mehefin 22ain am 2.00p.m. a nos Fercher, Mehefin 23ain am 6.30p.m. bydd y plant yn cynnal cyngerdd yn yr ysgol. Mae croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn Ysgol Pendalar i fynd draw i gefnogi'r Ffair Haf a'r cyngherddau.

**PARHAD O SENEDDAU'R FRO**

### CLWB IEUENCTID

Mae Clwb Ieuenctid Llanberis yn awyddus i gael agor ar ddwy noson, ac mae'r Cyngor Cymdeithas yn gefnogol i'w cais, ond "prin yw'r arian yn y god" fydd cri'r Pwyllgor Addysg, mae'n siwr.

### HEN ORSAF

Ydi wir mae hi'n flêr yntydi! At hen orsaf reilffordd Llanberis 'rwy'n cyfeirio, – nid at wraig drws nesa! Ond na ddigalonnwch, mae gobaith i gael gwared â'r dolur llygad gan fod Cyngor Sir Gwynedd wedi penderfynu gwerthu'r lle o'r diwedd. Amgueddfa arall i Lanberis? Sgêrsli bilîf!

### CYNGOR LLANRUG

Cadeirydd newydd Cyngor Cymdeithas Llanrug yw Mr. Tom Evans, Lloc, a Mr. E.G.Owen, Cwm-y-glo, yn is-Gadeirydd.

Mae Cyngor Llanrug wedi gorfod gohirio rhoi polyn â golau arno wrth Fron Gader, Cwm-y-glo am y ffaith fod MANWEB yn gofyn y pris afresymol o £297.80 am y gwaith. Ia, wir, afresymol yw'r gair. B'le yn y byd mawr y cawson nhw'r 80c 'na deudwch? Cenedlaetholi ddwed'soch chi?

Daw cwynion am MANWEB o ardaloedd Clwt-y-bont/Deiniolen/Dinorwig hefyd. Deëllir fod y cyflenwad trydan yn torri i lawr yn aml yn yr ardaloedd hyn.

Wyddech chi fod raid i Gynghorau Cymdeithas gyfarfod o leiaf dair gwaith mewn blwyddyn yn ychwanegol at y cyfarfod blynyddol ym mis Mai, ac na ellir cynnal yr un o'r cyfarfodydd cyn chwech o'r gloch.

Pryd mae'r datblygwr yn mynd i orffen y gwaith ar safle Talybont, Llanrug, tybed? Honnir iddo hel ei bac oherwydd iddo gael contract gwell, ac mae'r Cyngor Cymdeithas yn bryderus ynglŷn â chyflwr y llwybr cyhoeddus.

Wyddech chi y bydd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn dechrau eu cyfarfod bob tro trwy weddi. Yn sicr, mae gan bob Cyngor ei broblem y dyddiau hyn, onid oes, ac fe ddylai pawb sydd â phroblem ganddo gael ffydd mewn gweddi.

# DINORWIG



Dydd Sadwrn, Ebrill 17eg, yng Nghapel MC Dinorwig, priodwyd Isfryn Evans, mab ieuengaf Mr. a Mrs. J. Evans, Fferm Bryniau Heulog, Penrhosgarnedd, a Mary Lloyd Hughes, unig ferch Mrs K. Ll. a'r diweddar Thomas Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig.

### NEWID ARDAL

Dymunwn bob bendith i Mrs. Nesta Jones, Tanybryn, wedi iddi symud i fyw i Benisarwaun. Hefyd i Mrs. Mary Davies, Bron Myfyr, ar ei arhosiad ym Mhlas Penygwaith, Llanberis.

### ENNILL GWOBRAU

Llongyfarchiadau i Mrs. A. Thomas, Creigle, ar ennill gwobrau gyda'r ieir bantam yn Sioe Nefyn.

Llongyfarchion hefyd i Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar ennill y wobr gyntaf gyda chwarae'r piano yn Eisteddfod y Cilgwyn, a Mr. Emrys Roberts, Ysgubor, ar basio arholiad arbennig gyda Seindorf Deiniolen.

### O'R YSBYTY

Dymunwn wellhad buan i Mr. J. D. Williams, Tŷ'n Fawnog Uchaf, a Mrs. Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, wedi iddynt ddod adref o'r ysbyty.

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonnog i Arfon Roberts, William Roberts, Glenys Roberts, Ysgubor; Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir; David Vaughan Jones, Alwyn I. Jones, Wyn Jones, 3 Bro Elidir; Annette B. Roberts, Olwen B. Roberts, Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar eu llwyddiant yn Arholiadau Meysydd Llafar ac Ysgrifenedig Cymanfa Ysgolion MC Llanberis a Dinorwig ar Sul Mai 2.

### DIOLCH

Dymuna Mrs. Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian, gydnabod a diolch am y caredigrwydd ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty, a hefyd ar ôl dod adref, gan aelodau'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

### YN YR YSBYTY

Dymunir gwellhad buan i Miss M. Williams, Llidiart y Clo, a Mr. Thomas Parry, Foel Gron, y ddau wedi eu cymryd i ysbytai ym Mangor.

### CYNGHORYDD NEWYDD

Estynnir pob dymuniad da i Mr. Jacob James, Regent House, Deiniolen, ar ei ethol yn gynghorydd dosbarth dros yr ardal.


E & E. M. GREEN

SIOP GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*

BARGEINION

SPAR


# PENISARWAUN

### NEWYDD DA O SELAND NEWYDD

Cafodd Mr. a Mrs. W.M.Matthews, Freshwinds, Penisarwaun newydd da yr wythnos ddiwethaf i ddweud eu bod yn daid a nain wedi i'w mab, Danny, a'i wraig gael merch fach, Bess. Pob bendith iddynt.

### CYMANFA DOSBARTH DEINIOLEN

Llwyddodd tri o blant Ysgol Sul Capel Glasgoed i ennill tair gwobr gyntaf. Dan 6 oed – Gwynfryn Williams; Dan 9 oed – Sandra A. Jones; Dan 12 oed – Carys Wyn Williams.

### DARLITH

Cafwyd Darlith gan Mr. Huw John Hughes, M.A., Mynydd Llandygai, ar Ann Griffiths nos Iau, Mai 13 yng nghapel Glasgoed. Canwyd emynau o'i gwaith gan Barti'r Heulwen.

### CARNIFAL

Gobeithir cynnal y gweithgareddau canlynol ym Mhenisarwaun yn ystod mis Mehefin :

Mehefin 17 – Disco i'r plant.
Mehefin 18 – Mabolgampau.
Mehefin 19 – Carnifal.
Mehefin 23 – Pêldroed 5 bob pen.

Gofynnwn am eich cefnogaeth i'r Wyl.

### CAMFA I'R YSGOL

Methiant fu'r ymdrech i sicrhau camfa i blant Bryn Eglwys er mwyn iddynt fynd i'r ysgol yn ddiogel heb fynd i'r Lôn Bost. Nid oedd y perchennog yn fodlon i Gyngor Arfon ymgymeryd â'r gwaith.

### CYMANFA

Cynhaliwyd Cymanfa yng nghapel Bosra, Penisarwaun ddydd Sul, Ebrill 25ain. Yr arweinydd oedd Mr. Gordon Ward, eglwys Jerusalem, a'r cyfeilydd oedd Mr. Goronwy Jones, eglwys Ebeneser. Llywyddwyd yr oedfa bnawn gan Mr. Alun Roberts, Jerusalem, pryd y cafwyd cyfraniadau gan blant o eglwysi'r dosbarth.

Rhoddwyd croeso cynnes iawn gan y llywydd i'r gweinidog newydd oedd wedi derbyn gofal Eglwys Ebeneser, sef y Parch. Eryl Lloyd Davies. Dymunwyd adferiad iechyd llwyr a buan hefyd i'w briod.

Llywyddwyd yr oedfa hwyrol gan y Parch. Eryl Lloyd Davies a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr. Evie Wyn Jones, Bosra. Bu i'r llywydd dalu teyrnged uchel iawn i bawb oedd wedi bod wrthi mor ddyfal yn gweithio yn ystod y flwyddyn er sicrhau llwyddiant y Gymanfa. Yr Ysgrifennydd oedd Mr. Richard J. Thomas.

**CYFRANIADAU**

Dymuna Bwrdd Golygyddol Eco'r Wyddfa ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael tuag at gostau sefydlu'r papur.

Cyfaill i'r Eco o Bwllheli (£1); Di-enw o Ddeiniolen (£2); Di-enw o Lanrug (50c); Seindorf Arian Llanrug (£5); Miss Mat Pritchard, Caernarfon (£4).

**Mae arna'i ofn fod yn rhaid imi anghytuno â rhai o'r nodiadau gan T.H.Morris a Rhian Williams yn rhifyn Mai ynglŷn â digwyddiadau yng Nghwm-y-Glo. Dywed T.H. Morris fod tafarn y Fricsan yno cyn cyfnod y ffrwydriad powdr, ac y mae Rhian hithau yn sôn am ddau 'chwarelwr' yn 'eithaf hapus a braidd yn ddihidio' ar ôl bod am ddiod bach yn y Fricsan.**

Digwyddodd y ddamwain ar ddydd Mercher, Mehefin 30, 1869, rhwng chwarter i chwech a deng munud i chwech y nos. Lladdwyd pump o bobl, ac anafwyd wyth arall yn bur ddifrifol. Bu'n rhaid torri braich dau ohonynt i ffwrdd.

'Roedd Mr. Cragg a pherchnogion eraill Chwarel Glynrhonwy wedi prynu llwyth o 'nitro-glycerine' o Hamburg. Daeth y llwyth mewn llong hwyliau o'r enw 'Heroine' i Afon Menai, ac yna fe'i dad-lwythwyd i gychod rhwyfo a'i gario i borthladd Caernarfon. 'Roedd y 'nitro-glycerine' mewn tuniau, a'r rheini wedi eu hamgylchynu â blawd llif a gwellt. Yng Nghaernarfon llwythwyd y tuniau hyn ar ddwy drol, eiddo David Roberts, Edward St., ac Evan Jones, Tyddyn Llwydyn (Mewn rhai adroddiadau fe'i gelwir yn Evan Williams). Felly, dau gertiwr oedd yn gofalu am y troliau ac nid chwarelwyr.

# Tewch a D'eud

Ychydig o lathenni ar ôl i'r ddwy drol fynd heibio i orsaf Cwm-y-Glo, ac wrth ymyl Cors Llwyncoed, rhwng warws yn perthyn i'r orsaf a thyrpeg Penllyn, ffrwydrodd y 'nitro-glycerine'. Credir fod y troliau wedi dod i lawr yr allt fechan ger yr orsaf yn rhy gyflym, a bod y troliau wedi cael eu hysgwyd gormod (nid oes angen gwreichion tân i ffrwydro 'nitro-glycerine'). Yn ôl yr Herald Gymraeg, Gorffennaf 2, 1869, "Y peth cyntaf a welid oedd fflam, ac yna mwg yn ymddyrchafu am filltiroedd o amgylchedd. Wedi cyrraedd i'r lle.........y peth amlycaf a welid oedd dau dwll dwfn yn y ffordd...... a lanwyd â dŵr i lefel yr afon gerllaw. Y prif arwyddion eraill o'r dinistr ydoedd swp deifiedig a chrebachlyd o geffyl, a darn maluriedig a llosgedig o fod dynol". Yn ôl yr hanes, yr oedd Cors Llwyncoed yn frith o ddarnau o gyrff, a chafwyd traed a choesau dyn wrth dyrpeg Penllyn. Daethpwyd o hyd i ddarn o drol wrth reilffordd y chwarel ym Mrynrefail, a darnau eraill yn cynnwys harnais y ceffylau wedi eu chwalu hyd Greigiau Llwyncoed ac ardal y Clegir. Casglwyd yr holl ddarnau o gyrff dynol mewn cynfasau a'u cario i'r dafarn agosaf, sef Craig y Don.

**PWY OEDDYNT?**

Y rhai a laddwyd oedd David Roberts, certiwr, Edward St., Caernarfon; Evan Jones, 18 oed, Tyddyn Llwydyn; Robert Morris, Pennau'r Bronnydd, Bethesda, a oedd newydd ddychwelyd o'r America i weithio yn Chwarel Glynrhonwy; Griffith John Pritchard, 13 oed, Bryn'refail, a fu farw o'i glwyfau y bore wedyn; a John Jones, 11 oed, Cwm-y-Glo a fu farw yn hwyr y noson honno. Y rhai a anafwyd yn ddifrifol oedd : Richard Williams a Hugh Williams, Gwynfryn, Llanrug; Robert Thomas Jones, Cwm-y-Glo; Edward John Edwards, Cwm-y-Glo; John Williams, 'Rallt Goch; Owen Roberts, Cwm-y-Glo; David Jones, Cwm-y-Glo; ac Owen Owens, Tanlon, Llanrug.

**Y CWEST**

Cynhaliwyd y cwest am 6.00 nos Iau, Gorffennaf 1af, yn festri capel M.C. Cwm-y-Glo. Yn ystod yr holi daeth y ffeithiau canlynol i'r amlwg : Gwelwyd y ddau gertiwr gyntaf o'r tu allan i'r "Blue Bell" yng Nghwm-y-Glo ac iddynt wedyn fynd i'r "Alexandra Inn". Dywedodd Mrs. Mackenzie, y perchennog, iddynt gael glasiad o gwrw yr un, ond eu bod yn berffaith sobr ac yn dawel cyn gadael. Yr oedd wedi cael yr argraff o ddyn cydwybodol yn David Roberts, ac yr oedd wedi gadael iddo gael y cwrw yn ddi-dâl gan iddo addo talu ar ei ffordd yn ôl o'r Chwarel, wedi iddo dderbyn tâl am y cludiant. Bu trafod ar ddiffyg gofal a difaterwch y certwyr yn y cwest, ond y rheithfarn a ddyfarnwyd oedd "i'r marwolaethau ddigwydd trwy ffrwydriad 'nitro-glycerine', ac iddo ffrwydro'n ddamweiniol".

**ARCHWILIAD**

O ganlyniad i'r ffrwydriad, cafwyd gwarant i archwilio adeiladau yng Nghaernarfon, ac aethpwyd â llawer o ffrwydron allan i Afon Menai a'u boddi. Yr oedd tair trol arall yn llawn 'nitro-glycerine' yn disgwyl wrth dyrpeg Bodrual, ond gwrthodwyd rhoi caniatâd i'w symud nes ail lwytho'r cwbl i droliau ysgafnach a diogelach. Er hynny, yr oedd y certwyr yn anfodlon iawn mynd â'r llwyth oddi yno i Chwarel Bethesda.

Ar wahân i'r golled mewn bywydau, bu llawer o ddifrod yn ardal y ffrwydriad. Dinistriwyd llawer o'r warws, gorsaf y rheilffordd, a "gwesty sydd heb fod lawn ei orffen wrth ymyl". Gwnaethpwyd difrod i ffenestri, toau a waliau bron bob tŷ yn y Cwm, ac yn Llanberis chwythwyd drysau tai yn agored. 'Roedd pobl Bangor a'r Felinheli yn credu fod daeargryn wedi digwydd.

Mae'n amlwg nad oedd y Fricsan yn bod fel tafarn y pryd hynny. Sylwch fod y cyrff wedi eu cario i'r dafarn **agosaf** sef Craig y Don, ac wrth sôn am y difrod dywedir fod **gwesty heb fod lawn ei orffen** wedi dioddef. Mae'n eithaf posibl fod y Fricsan wrthi'n cael ei hadeiladu ar y pryd.

**D. Whiteside Thomas.**

# CWM-Y-GLO

## GŴYL UNDEB Y MAMAU

Eleni y mae Undeb y Mamau yn dathlu ei ganmlwyddiant ac i nodi'r amgylchiad yr oedd gŵyl flynyddol Undeb y Mamau yr Esgobaeth yn cynnwys pasiant o hanes Undeb y Mamau o'i dechreuad. Yr oedd Mrs. Watkins, Dolwen, Mrs. Orritt a Cynthia, Morannedd, Mrs. Roberts, Bodgwynedd, Mrs. Williams, Nant Forgan a Mrs. Williams, Y Rheithordy yn cymeryd rhan. Miss Roberts, Y Fron, Llanrug, oedd yn cludo'r faner.

Cynhaliwyd cyfarfod o Undeb y Mamau yn ddiweddar i drefnu rhaglen ar gyfer gwaith y tymor nesaf a fydd yn dechrau ym mis Medi. Darparwyd lluniaeth gan Mrs. Roberts, Ty'n Ffridd a Mrs. Roberts, Bod Gwynedd. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Williams, Y Rheithordy, a hi hefyd a ddywedodd y gweddiau ac a lywyddodd.

## GWAELEDD

Y mae Miss Roseveare, Tan y Rhiw, yng nghartref Ceris, Bangor ac anfonwn ein cofion ati gan obeithio y bydd adref cyn bo hir.

## YN YR YSBYTY

Dymuniadau gorau'r ardal am wellhad buan i Mrs. Helen Roberts, Llwyncoed Bach.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mr. Graham, Fron, 'Rallt Goch, a gafodd ddamwain.

## CYFARFOD AGORED

Cynhelir cyfarfod agored gyda'r Aelod Seneddol, y Cynghorwyr Sir a Dosbarth ar yr 11eg o Fehefin yn yr Ysgol Gynradd.

## WYTHNOS Y CARNIFAL

Trefnodd Pwyllgor y Cae Chwarae Wythnos y Carnifal fel a ganlyn:
Mehefin 26 – Taith Gerdded.
Mehefin 27 – Cymanfa Ganu yng nghapel y Tabernacl.
Mehefin 28 – Gemau Pêl Droed i dimau merched a thimau plant.
Mehefin 29 – Noson Gymdeithasol ar gyfer y pensiynwyr.
Mehefin 30 – Gêm Bêl Droed Gwŷr yn erbyn Ieuenctid.
Gorffennaf 1 – Rownd Derfynol Dartiau.
Gorffennaf 2 – Chwaraeon.
Gorffennaf 3 – Carnifal.
Cynhelir popeth allanol yn y cae chwarae eleni.



**Bydd yn rhaid i'r Dr. Eirwen Gwynn sicrhau ein bod yn cael dosbarth nos yn rhywle yn yr ardal ar gyfer peintio ac addurno y tymor nesaf. Cymerwch chi'r ddwy enghraifft yma:–**

Daeth i'm clyw y dydd o'r blaen am anffawd un o brifathrawon adnabyddus yr ardal hon. Teimlai yn egniol iawn un diwrnod, a phenderfynodd ymgymeryd â'r gwaith o beintio'r ffenestri. Heb yn wybod iddo 'roedd ei wraig hefyd wedi meddwl gwneud yr un peth, ond ar ôl agor y tun paent cymerodd rhywbeth arall ei meddwl a gosododd y caead yn ôl heb ei gau yn ddiogel. Aeth y prifathro druan i nôl y paent. Meddyliodd yn sicr fod y tun angen ei ysgwyd cyn ei ddefnyddio. Druan ohono, ni ellid ei adnabod, ac oni bai ei bod yn fis Mai, gellid tybio yn siwr mai dyn eira a safai yno, ac nid y prifathro. 'Rwy'n siwr iddo gael trochfa fythgofiadwy a'r tro nesaf y bydd yn mynd i beintio mae'n sicr o wneud yn siwr fod caead y tun wedi ei sicrhau.

Dyn o Lanrug yn lliwio'r ystafell wely – tair wal yn 'lilac' a'r llall yn biws. Rhedodd allan o baent piws – ac aeth i'r garej i nôl mwy. Gorffennodd o'r diwedd. Daeth y mab bychan i mewn.

"Be 'da chi isio tri lliw, Dad?"

"Be' wyt ti'n feddwl – tri lliw– dau liw sydd yma". Aethant ymlaen i ddadlau. Daeth ei wraig i mewn. Bu bron iddi lewygu wrth weld fod y wal biws erbyn hyn yn ddau liw. Hanner yn biws a'r hanner arall yn las tywyll (royal blue). Ond mae'r brawd yn taeru hyd heddiw fod y wal yr un lliw i gyd – sef piws! Dr. Eirwen Gwynn, drosodd i chi.

Ydi'r straeon yn wir? Cyn wired â phader. Pwy oedden nhw? O, wel, cyfrinach Draenog ydi honno

## SAETHU PONT Y FRICSAN



*Chwalwyd hen bont y Fricsan y mis diwethaf i wneud lle i ffordd osgoi Cwm-y-glo. Rhyfedd meddwl fod 107 o flynyddoedd er pan fu y "Ffrwydriad Mawr" arall bron iawn yn yr union fan.*

# TAN-Y-COED

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Enid Wynne, Llety Llwyd, aelod o Ysgol Sul Eglwys M.C. Tanycoed, am ennill y Fedal yn yr Arholiad Ysgrifenedig Cymanfa Dosbarth Caernarfon. Gwobrwywyd hi yn y Gymanfa ym Moreia Caernarfon ar Fai 16.Hefyd yn yr un Gymanfa gwobrwywyd Gareth Lloyd Jones, Hafod Owen, Margaret Ellen Roberts, Tainewyddion a Dafydd Gregory Hughes, 'Rallt Deg.

Hefyd bu Enid Wynne yn llwyddiannus yn yr Arholiad Sirol a gwobrwywyd hi yng Nghyfarfod Henaduriaeth Arfon yn Jerusalem, Bethesda ar Fai 18.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. David Ashton, 10 Tai Bryngwyn ar enedigaeth merch, Mary Owen, chwaer i Kenneth ar Fai 4ydd.

## CYDYMDEIMLAD

Ar Fai 18fed yn ysbyty Môn ac Arfon bu farw Miss Ellen Jane Jones, 1 Newborough Street, Caernarfon, gynt o Eithin Duon, Cwm-y-glo. Merch y diweddar Mr. a Mrs. Morris Jones oedd Miss E.J.Jones.

## Y GYMDEITHAS FEDDYGOL

Diddorol iawn oedd darganfod yn ystod y mis a aeth heibio am fodolaeth "Y Gymdeithas Feddygol". Darganfuwyd hefyd fod meddyg sy'n wreiddiol o'r ardal hon yn gysylltiedig â'r Gymdeithas. Cyfeiriwn at Dr. R. Fraser Williams, M.B., F.R.C.S. sydd ar hyn o bryd yn Facteriolegydd Ymgynghorol yn ysbytai plant Gogledd Manceinion. Mab ydyw i'r diweddar Dr. a Mrs. John Williams, Glanbogelyn, Cwm-y-glo gynt, a'i fam o Benisarwaun. Bu'n ddisgybl am gyfnod yn Ysgol Brynrefail.

Dywed Dr. Williams fod y Gymdeithas Feddygol yn rhan bwysig o'r datblygiadau newydd yn yr iaith Gymraeg. "Rwyf wedi fy syfrdanu," meddai, "o sylweddoli mor ystwyth yw'r Gymraeg wrth drafod pynciau technegol".


Bwriadu Priodi?

NEU UNRHYW ACHLYSUR ARALL BYTHGOFIADWY

*AM LUNIAU LLIW NEU DDU A GWYN*

**DENNIS A. JONES**

**FFOTOGRAFFYDD**

Denfor, 1 Stad Eryri
Bethel
*Ffôn Port Dinorwig 711*





**Yn ystod y mis diwethaf bu farw Mr. Hugh Jones, gŵr Mrs. Mary Jones, 4, Y Bwthyn, Deiniolen. Tra'r** ydym yn cydymdeimlo'n ddwys â'i briod a'r teulu 'rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i Mrs. Jones am gyflwyno'r llun yma i ECO'R WYDDFA. Dymuniad Mr. Hugh Jones oedd hyn.

Mr. Hugh Jones oedd yr olaf o Gôr Elidir a arweinid gan y diweddar Thomas Padarn Roberts. Saif Mr. Hugh Jones ar y chwith ar ben y rhes gyntaf o'r rhai sy'n sefyll.

Yn ddiau, daw'r llun hwn â myrdd o atgofion hapus a dwys i lawer ohonoch yn yr ardal hon. Diolch i'r teulu am gadw i'r oesoedd a ddêl y glendid a'r gogoniant a fu.

# Maes y Merched

## HEN GREFFT SYDD WEDI AIL-AFAEL

**Os buoch chi'n tacluso silffoedd a chypyrddau yn ddiweddar efallai i chi ddod o hyd i ddarnau o ddeunydd ar ôl datod gwisg neu wneud gwisg newydd. Peidiwch â'u taflu i ffwrdd ond darllenwch ymlaen.**

Mae gwneud darn o glytwaith yn hen, hen grefft sydd wedi ailafael ac sydd yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd. Clywais hanesyn am wraig oedd wedi cychwyn ar ddarn o glytwaith pan oedd ei phlant yn fân a chymeryd darnau o'u gwisgoedd ar hyd y blynyddoedd a'u cynnwys yn y cwilt. Dyna atgofion melys a gaiff wrth edrych arno pan fo'r nyth yn wag!

### PATRYMAU SYML

Dewiswch batrwm syml i ddechrau — templet chwe ochrog er enghraifft. Rhaid i'r darnau deunydd fod o'r un pwysau a gwead ac mae'n bwysig, wrth gwrs, nad yw'r lliwiau yn rhedeg mewn dŵr. Copiwch y patrwm lleiaf a thorrwch allan faint bynnag o ddarnau sydd eu hangen arnoch — i gyd mewn papur llwyd. Yna ewch ati i dorri'r un nifer o'r rhai mawr (chwarter modfedd yn fwy na'r papur ymhob cyfeiriad). Eisteddwch i lawr mewn cadair gyfforddus a phwythwch un papur i ochr chwith bob darn deunydd gan blygu'r chwarter modfedd drosodd yn daclus. Wedyn cymerwch eich amser i gynllunio eich patrwm a pharatoi bob darn yn ei dro. Fe welwch fod yn rhaid i bob ochr fod yn union o'r un maint i ffitio i'w gilydd a chadwch y pwythau'n fân wrth roi'r clytiau wyneb yn wyneb. Gyda gofal, gellwch roi'r darnau at ei gilydd gyda pheiriant. Fel mae'r gwaith yn tyfu gellwch dynnu'r papurau ond cymerwch ofal fod y chwe ochr wedi eu cysylltu i ddarn arall cyn gwneud hyn.

Mae'n debyg yr ewch ymlaen o nerth i nerth wedi dechrau, a phwy a ŵyr na fyddwch yn gorffen gyda chwilt gwely!




### SGWENNWCH I MEWN

Dyma gyfle i chi ysgrifennu i mewn i Faes y Merched, ac fe ddechreuwn y tro yma gyda rhai o'ch syniadau o gwmpas y tŷ. Anfonwch fwy ac fe gyhoeddwn ddau neu dri bob mis.

### SYNIADAU GWERTHFAWR

A gawsoch chi baent yn rhedeg i lawr eich braich wrth beintio'r nenfwd erioed? Y tro nesaf gwnewch dwll mewn hanner pêl rwber a gwthiwch goes y brwsh drwyddo. Fe ddeil y paent yn y cwpan a gellwch ei dywallt yn ôl i'r tun.

Mae'n hawdd defnyddio gormod o bowdr golchi wrth ysgwyd y bocs i'r dŵr. Yn lle rhwygo top y bocs yn ôl gwnewch bump neu chwech o dyllau bach hefo sgwiar — rhaid ysgwyd y bocs am ychydig yn hwy ond fe ddefnyddiwch lai o bowdr.

Wrth ddadrewi eich oergell cadwch y dŵr a'i ddefnyddio mewn haearn smwddio stêm ac i fatri'r car.

Ar ôl gwnio botwm yn ôl yn ei le rhowch gôt o baent ewinedd clir ar yr edau tu cefn. Fe ddeil yn ei le am byth!

Dyma risêt arbennig am feddyginiaeth i hen ddodrefn derw: 4 rhan tyrpentin; 2 ran gwirod methyl; 4 rhan oil linseed (a digon o nerth braich!)

I ddyfrio planhigion tŷ pan fyddwch i ffwrdd ar eich gwyliau gosodwch y potyn mewn powlen o bapur newydd gwlyb a rhowch rhyw fodfedd o ddŵr ar y gwaelod.

Anfonwch eich syniadau i : Rhiannon James, Bryn Mair, Llanrug. (Ffôn : Bangor 53335).


**JACOB A. JAMES**

**Regent House · Deiniolen**

Ffôn : LLANBERIS 461

**GROSER PENIGAMP !**

DEWCH I WELD DROSOCH EICH HUN

# DEINIOLEN

### PENBLWYDD
Llongyfarchiadau cynnes i Mrs. Ann Owen, 1 Tai Macpela, ar ddathlu ei phenblwydd yn 93 mlwydd oed ar Fai 17eg. Hyd nes yn gymharol ddiweddar 'roedd Mrs. Owen ymhlith y ffyddlonaf yn oedfaon ei heglwys yn Disgwylfa, ac erys yn fyw ei diddordeb yn y 'pethe'o hyd.

### "GIRL GUIDES"
Yn ddiweddar bu Sharon Jones, Eryl Roberts, Olwen Thomas a Jean Williams yn aros am dridiau yn Felin Bach, Caeathro tra'n dilyn cwrs ar sut i fyw a choginio yn yr awyr agored.

Dydd Sadwrn, Mai 15ed, ymwelodd holl aelodau'r Gangen leol â'r Felin Bach unwaith yn rhagor i gefnogi ymdrechion chwech o'u plith mewn cystadleuaeth arbennig. Cafwyd blas ar y cystadlu, ac mae'r genethod i'w canmol am ddod yn agos at gipio'r brif wobr.

### PLAID CYMRU
Yn ddiweddar cynhaliwyd bore a nos goffi yn 1 Tai Gweledfa tuag at Gangen Deiniolen. Y gwesteion oedd Mrs. M.G.Williams, Mrs. A.M.Jones, Mrs. Katie Jones a Mrs Mabel Jones, yr oll o Tai Gweledfa, yn cael eu cynorthwyo gan Miss Lewis, Caerau a Mrs. M. Thomas, Berthen Gron. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn a gwnaed elw o £60.31. Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth.

### O'R YSBYTY
Bydd ffrindiau Miss Jennie Williams, 9 Stryd Newydd, yn falch o glywed ei bod wedi dychwelyd o'r ysbyty yng Nghaernarfon ar ôl triniaeth lawfeddygol. Mae Miss Williams yn aros am gyfnod gyda'i chwaer Mrs. Gladys Parry, Pentre Helen, a dymunwn wellhad buan iddi.

### SEFYDLIAD Y MERCHED
Nos Lun, Mai 3ydd, o dan lywyddiaeth Mrs. M.A.Thomas, cafodd y Sefydliad arddangosiad gwych o ddillad, capiau a bagiau wedi eu crosio gan Mrs. Hannah Jones, Llanberis. Eglurodd Mrs. Jones fod crosio'n cael ei wneud yn gynnar iawn, yn wir, fod Tutankamen yn gwisgo dillad wedi eu crosio. 'Roedd diddordeb amlwg ymysg y merched a chafwyd 14 o enwau i ddechrau dosbarth crosio ym Medi nesaf.

Croesawyd Mrs. Helen Roberts, Stryd Uchaf, ac anfonwyd cofion at Mrs. Rowlands ein his-Lywydd sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl, ac hefyd at Mrs. M.G.Williams sydd newydd ddod adref o'r ysbyty. Diolchwyd i Mrs. H. Jones gan Miss Elinor Jones. Y gwesteion oedd Mrs. Eirlys Williams, Miss Kathleen Jones a Mrs. M.A.Thomas. Mrs. Williams, Tŷ Capel, enillodd y raffl. Ar Fehefin 7fed edrychir ymlaen at gyfres o atgofion gan Mr. W.M.Hughes, Rhiwen. Bu Mr. Hughes yn darlledu ar y rhaglen "Rhwng Gŵyl a Gwaith" yn ddiweddar.

### YSGOL GWAUN GYNFI
Bydd Côr Ysgol Gwaun Gynfi yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn y Borth ddydd Mercher, Mehefin 2, a bydd Annette Shaw yn cystadlu ar yr adroddiad ail iaith dan 12 oed yr un diwrnod. Dymunir pob llwyddiant i'r plant yn yr Eisteddfod, a llongyferchir hwy ar ennill yn yr Eisteddfod Gylch a'r Eisteddfod Sir, a hwy felly fydd yn cynrychioli'r hen Sir Gaernarfon yn y Genedlaethol.

### Y SEINDORF ARIAN
Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Seindorf nos Fercher, Mai 12ed, pryd yr etholwyd y swyddogion canlynol: Mr. Owen H.Jones, Pentre Helen (Cadeirydd); Mr. Meirion Jones, Minafon (Ysgrifennydd); Mr. Hefin Jones, Llanrug (Trysorydd); Mr. R.F.Moon (Arweinydd); Mr. W.O.Williams, Ty Capel Disgwylfa (Ysgrifennydd Gohebol); Huw J. Jones (Llyfrgellydd); Thomas Williams (Gofalwr). Carai'r pwyllgor ddatgan diolchgarwch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Mae'r Seindorf yn awr yn edrych ymlaen am gyfnod prysur gydol misoedd yr haf pan fydd galw am eu gwasanaeth mewn llawer carnifal ac adloniannau eraill.



*Llun o blant ysgol Gwaun Gynfi Deiniolen a gymerodd ran yng Nghyngerdd Sefydlu Eco'r Wyddfa.*

### MERCHED Y WAWR
Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni un o gyn-feibion yr ardal ar nos Fawrth, Ebrill 27ain, sef Mr. W.Iolen Hughes, ysgolfeistr Rhiwlas. Rhoddodd drem ar Addysg yng Nghymru ers y Ddeddf Uno (1536), a'i chyfraniad a'i dylanwad ar yr ardal. Diddorol eithriadol oedd y dyfyniadau gafwyd o Lyfr Cofnodion (Log Book) cyntaf yr hen Ysgol Babanod, Deiniolen.

### CYNGOR EGLWYSI'R PENTREF
Y Parch. George Brewer oedd yn agor trafodaeth olaf y tymor ar Efengyl Marc mewn cyfarfod undebol yn Eglwys Llandinorwig nos Lun, Mai 10fed. Diolchwyd i Mr. Brewer am ei ddarpariaeth gan y Parch. Stanley H. Williams a Mr. John Williams, Ysgrifennydd y Cyngor.

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchion i Mark Thomas, 35 Rhydfadog, disgybl yn Ysgol Gogarth, Llandudno ar ennill yn eisteddfod ei ysgol y wobr gyntaf dan 6 mlwydd oed am adrodd yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â'r wobr gyntaf am ganu yn Saesneg, a'r drydedd wobr am ganu yn Gymraeg.

Llawenydd hefyd yw cyhoeddi i Griffith Orwig Jones, Celyn, disgybl yn Ysgol Sul Libanus, ennill y wobr gyntaf o 6 i 8 oed yn Arholiad Llafar Cwrdd Dosbarth Bedyddwyr Arfon.

### YN YR YSBYTY
Anfonwn ein cofion at Mrs. H. M. Pritchard, 4 Stryd Newydd, sydd yn yr ysbyty ers pum mis. Edrychwn ymlaen am ei gweld yn ôl yn ei chynefin.

Hefyd, Robert Lloyd Jones, 5 Cynfi Terrace, sydd yn yr ysbyty am yr ail dro eleni. Dymunwn adferiad buan iddo yntau hefyd.

# NANT PERIS

### FFARWELIO
Drwg gennym orfod ffarwelio â theulu Bod Hyfryd o'n plith. Gorfod oedd arnynt adael y Nant oherwydd y gwaith trydan yn chwarel Dinorwig. Dymunwn iddynt bob bendith a hapusrwydd yn eu cartref newydd yn Llanberis

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchion i Nerys ar enedigaeth ei merch fach, Elin Angharad Dymunwn i'r ddwy bob bendith a bydd croeso yn disgwyl Nerys ac Elin gartref o Fangor.

### GWELLA
Balch ydym o weld rhai a fu'n wael yn ein plith gartref ac mewn ysbyty yn gwella ac yn dechrau codi allan unwaith eto. Bydded iddynt gael adferiad buan i fynd a dod yn ein plith unwaith eto.

### BLACK & WHITE MINSTRELS
Fe ddewiswyd Raymond Jones, mab y diweddar Morris Peris Jones, Tan y bryn gynt, yn aelod o gwmni'r 'Black & White Minstrels'. Ddechrau'r ganrif 'roedd ei dad yn ganwr poblogaidd ar lwyfannau'r fro.

### DIOLCH
Ein diolch i Glyn, Richard, Alwyn, Elwyn ac Elfyn am eu gwaith yn mynd o gwmpas yr ardal i gasglu at Apêl Flynyddol Cymorth Cristnogol. Balch ydym o weld ein bechgyn ifanc yn ymgymeryd â'r math yma o waith yn yr ardal.

### £200
Bydd o ddiddordeb i'r ardal a'r cylch wybod fod £200 wedi eu trosglwyddo i Uned Clefydau'r Galon yn Ysbyty Môn ac Arfon, sef yr offrwm a dderbyniwyd yn angladd ein diweddar gyfaill Wmffra Roberts. Diau y bydd swm sylweddol fel hyn yn rhywfaint o gymorth i achub bywyd rhywrai sy'n dioddef o anhwylderau'r galon.

### MARWOLAETH
Chwith meddwl na chawn eto gwmni'r diweddar Mr. Robert Edwards, priod Mrs. Margaret Edwards sy'n byw yn Lerpwl ers blynyddoedd, ac yn ferch i'r diweddar Mr. a Mrs. John P. Williams, Tan-y-Bryn. Byddai ef a'i briod yn edrych ymlaen yn eiddgar am Eco'r Wyddfa er mwyn cael newyddion y fro.



Chwi bobl a phlant sy'n dioddef o glwy'r cynrhon ac o'r herwydd yn methu eistedd yn llonydd yn ystod cyngerdd neu ddrama yn Ysgol Brynrefail, cofiwch, da chi, bod 'na bobl eraill wedi talu i weld y cyngerdd ac nid i weld antics cynrhonwyr.

Cyngor Draenog i gynrhonwyr: Yfwch ddwy gwpanaid a hanner o blwm tawdd dridiau cyn y cyngerdd neu 'rhoswch adra.


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# CHWEDLAU'R FRO

gan JOHN OWEN HUWS

### MARGED FWYN FERCH IFAN

**Mae gan Marged fwyn ach Ifan**
**Grafanc fawr a chrafanc fechan,**
**Un i dynnu'r cŵn o'r gongol,**
**A'r llall i dorri esgyrn pobol.**

**Dyna sut y canodd bardd anhysbys i Marged Fwyn Ferch Ifan, un o gymeriadau enwocaf a rhyfeddaf Llanberis.**

Dywed traddodiad i Marged fyw yn nhafarn y Tylyrni, Drws y Coed cyn symud i Lanberis. Cadwai'r tŷ tafarn a heidiai mwynwyr Drws y Coed yno i ddawnsio. Yn ddiweddarach symudodd i Lanberis ac ymgymerodd â rhwyfo'r cychod a ddygai'r copr o waith yr Wyddfa i lawr at Ben-llyn cyn adeiladu'r ffordd bresennol. Yn sgîl hyn galwyd hi yn "Frenhines y Llynnoedd".

Y cyntaf i sôn am Marged oedd Thomas Pennant yn 1781. Disgrifiodd hi fel gwraig alluog iawn a fedrai wneud telyn a'i chanu, cyfansoddi tonau, canu, a barddoni. Gallai wneud gwaith crydd, gof a theiliwr a gwnai ei chychod ei hun. Ei phrif ddiddordeb oedd cadw cŵn hela a dywedir y lladdai fwy o lwynogod mewn blwyddyn na holl foneddigion y sir gyda'i gilydd. Ei phrif nodwedd, fodd bynnag, oedd ei nerth a dywedir ei bod cyn gryfed â dau ddyn ac y gallai ymaflyd codwm pan yn ddeg a thrigain oed. Cynigiodd llawer ei phriodi ac yn y diwedd dewisodd delynor o'r enw Rhisiart Wiliam — y dyn mwyaf diniwed y gellid ei ddychmygu! Bu Marged farw yn 102 oed tua'r flwyddyn 1789, heb ddiwrnod o afiechyd yn ei bywyd.

#### CHWEDLAU AM MARGED

Erys llawer o chwedlau am Marged a dyma rai. Un tro 'roedd yn rhwyfo Smith y Faenol ar Lyn Padarn, pan geisiodd gael cusan ganddi. Y peth nesaf 'roedd Marged wedi ei daflu ar ei ben i'r llyn ac ni chafodd ddod yn ôl i'r cwch nes talu hanner gini iddi. Dro arall lladdwyd Ianto, hoff gi Marged, gan gawr o fwynwr am iddo fwyta ei fwyd. Cynigiodd Marged dalu am y bwyd os talai ef am y ci ond bygythiodd y mwynwr yrru Marged i'r un lle a Ianto os na fyddai ddistaw. Gwylltiodd Marged yn gandryll a rhoi dyrnod iddo a'i lloriodd. Dywedir y byddai un arall wedi ei ladd. Dywed hanes arall iddi godi'r bont sy'n arwain o ffordd y chwarel at Gastell Dolbadarn drwy gario clamp o lechen ar ei chefn. Dywed chwedl hynotach eto ei bod wedi bwriadu rhoi cerrig ar draws Llyn Padarn a ffurfio sarn, ond pan yn cario'r llwyth torrodd llinyn ei barclod ar ben Craig yr Undeb a gadael y 'Garreg Gwcw' sy'n pwyso ugain tunnell yno byth.

# Colofn y DYSGWR

'Rydyn ni rwan yn nhymor yr haf Bydd llawer o ymwelwyr yn dod i Ogledd Cymru yn ystod y misoedd nesaf. Maen nhw'n hoffi gweld y mynyddoedd ac hefyd mynd i lan y môr. Yn yr ardal yma mae llawer lle diddorol fel Castell Caernarfon, Trên Bach yr Wyddfa, Trên Bach Llyn Padarn, Amgueddfa'r Chwarel yn Llanberis, ac wrth gwrs y golygfeydd prydferth. Gobeithio bydd y tywydd yn braf.

Dyma ychydig o waith i chi.

Mae llythrennau cyntaf y geiriau sy ar goll yn nhrefn y wyddor **(alphabetical order).**

(a) Roedd tair a.......yn stori Goldilocks.
(b) Mae b....... yn rhoi llefrith i ni.
(c) Mae ....yn cyfarth.
(ch) Aeth Mair ar gefn ei......
(d) Anifail pigog ydy..........
(dd) Mae'r .........yn fam i'r oen bach.
(e) Dydy'r........ddim yn anghofio.
(f) Mae'r ......yn cario ei thŷ ar ei chefn.



*Dosbarth o ddysgwyr Cymraeg yn cyfarfod yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis dan arweiniad eu hathro, Mr. Islwyn Jones, Bethel*

# BRYN-REFAIL

### EGLWYS M.C.

Gwasanaeth Boreol dydd Sul Mai 16. Cymerwyd y gwasanaeth gan blant a phobl ifanc yr Ysgol Sul. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs. L. P. Williams, Shirley Roberts a Mr. G. Wyn Williams.

Gwasanaeth Hwyrol. Cafwyd recordiad o bregeth y Parch J.W. Jones, Conwy yn Sasiwn y Gogledd yng Nghemaes.

### CLWB YR HENOED

Y gŵr gwadd yng nghyfarfod y Clwb ar Ebrill 27ain oedd Mr. Orwig Roberts, Pontrhythallt. Rhoddwyd y te gan Mrs. M.J. Williams, Isallt, Mrs J.H.Roberts, Glandwr a Mrs.Mair Williams.

Ar Fai 11eg cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Miss Mat Pritchard, Caernarfon yn rhoi darlith fyw a dramatig iawn ar hanes suddo'r 'Royal Charter'. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Mrs. J. Hughes, Bryngarth. Llywyddwyd y ddau gyfarfod gan Mr. G. Pritchard, Glyn Afon. Rhoddwyd y te gan Mrs. Knox a Mrs. Maxwell.

### CLWB Y MAMAU

Cafwyd noson ddifyr ar Fai 13eg yng nghwmni Mr. Eric Welsby, Tanrallt, yn dangos ffilmiau ar ei wyliau yn Sbaen. Diolchwyd iddo gan Mrs. Moira Ellis, Gweledfa. Darparwyd y te gan Mrs. Rhian Jones a Mrs. Helen Jones, Trem Eilian. Enillwyd y raffl gan Mrs. Rhian Jones. I orffen y tymor eleni cafwyd trip i Gaer ar Fai 1.

### PERSONOL

Dymuniadau gorau i Mr. Bob Francis, Bryn Cottage, ar ôl ei ddamwain. Hefyd i Mr. a Mrs. Jones, Tŷ Coch sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty. Llwyr wellhad buan i Mrs. Betty Owen, Tros yr Afon, sydd newydd fod o dan driniaeth.

### CYFARFOD AGORED

Cynhaliwyd cyfarfod agored yn y festri nos Fercher, Mai 19 i drefnu Cymdeithas Lenyddol yr ardal. Codwyd y swyddogion a ganlyn: Mr. Dafydd Ellis, Gweledfa (Llywydd); Mr. R. Wyn Evans, Ty'n Buarth (Is-Lywydd); Mr. Islwyn Williams, Godre'r Coed (Ysgrifennydd); Mr. G. Wyn Williams, Orwig Terrace (Trysorydd). Trefnwyd rhaglen o gyfarfodydd i ddechrau ym mis Hydref. Hefyd trefnwyd ein bod yn cael Mabolgampau a Gemau Giamocs i blant a phobl ifanc yr ardal. Yr oedd y cyfarfod hwn yn deillio o'r Daith Gerdded gan y pentrefwyr Ddydd Gwyl y Blychau diwethaf pan gasglwyd y swm sylweddol o £70.

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Nos Iau, Mai 20fed, gyda Mr. J. Hughes, Bryn Garth yn llywyddu croesawyd atom Mrs. Myfanwy Davies a'i ffrind o Lanberis i roi hanes ei hymweliad â Choleg Denham. Rhoddwyd y te gan Mrs. H.J.Jones a Mrs. Gwyneth Jone- Trem Eilian.


STORFA
Mace
S.&E. Jones
Llanrug
FFÔN: Caernarfon 2790
BLODAU A FFRWYTHAU
YW EIN
HARBENIGRWYDD

S. JONES
CYFANWERTHWR
FFRWYTHAU
(WHOLESALE
FRUITERER)
Y STORFA
LLANRUG
FFÔN
CAERNARFON 2790

Gwesty Dolbadarn
Tŷ Rhydd-Feddiant
Llanberis
FFÔN : LLANBERIS 277
Perchennog Aneuryn Jones
MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL
Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol




# LLANRUG

## MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen nos Fawrth, Mai 11eg, gyda Mrs. M.Evans, Lloc, yn llywyddu. Rhoddodd Mrs. Margaret Jones, yr ysgrifennydd adroddiad o'r Gynhadledd yn Aberystwyth.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn gan Mrs. Gwen Jones, ac i'r ddwy aelod o Gwm-y-glo a ddaeth i gyfrif y pleidleisiau. Trefnir gwibdaith gyda'r nos ym mis Gorffennaf a bydd y Cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Fehefin, gyda Miss Sidi Roberts, Caernarfon, yn arddangos 'Trefnu Blodau'.

Gwerthodd y Gangen werth £80 o lyfrau fel rhan o'r ymgyrch werthu llyfrau Cymraeg ac y mae'r gangen yn ddiolchgar i Mrs. Margaret Jones am ei llafur.

## PLAID CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Sefydliad Coffa pan dderbyniwyd cynigion i Gynhadledd Arfon a gynhelir yng Nghaernarfon ar Fehefin 12fed.

Llywyddwyd yng Nghynhadledd Merched Plaid Cymru yn Aberystwyth ddydd Sadwrn, 15 o Fai gan Miss Phyllis Ellis sy'n ysgrifennydd Pwyllgor Rhanbarth Arfon, ac yn aelod gweithgar o gangen Llanrug.

## LLONGYFARCHIADAU

Yn ysbyty Treforus ar Ebrill 24 ganwyd merch fach, Angharad, i Dr. a Mrs. Gareth James, Bryn Mair. Mae'r teulu yn Llanrug ar hyn o bryd cyn hedfan yn ôl ddiwedd Mai i'w cartref ym Muscat, Suttanate of Oman lle mae Mr.James mewn swydd gyda Royal Dutch Shell.

## O'R YSBYTY

Da iawn oedd gweld Mrs. Jones, Madryn, wedi gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau iddi hi gan ei ffrindiau a'i chymdogion.

## CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR

Nos Iau, Mai 6, cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, a Mrs. Carys Jones, Gwen-y-Wawr. Daeth cynulliad da o'r chwiorydd ynghyd i gyfarfod olaf y tymor. Dymunwyd yn dda i Nyrs Iona Williams ar gael ei phenodi yn 'District Nurse' Llanrug. Diolchwyd i bawb gan Mrs. W.O.Roberts.

## DIOLCHIADAU

Diolchiadau i'r cyn-gynghorydd Charles Wyn Jones am wasanaethu y pentref mor ardderchog am dair blynedd ar Gyngor Arfon. Diolch yn fawr Charles. Dymuniadau da i'r cynghorydd newydd, Gwyndaf Jones.

## FESTRI'R PASG

Cynhaliwyd Festri'r Pasg yn yr Ysgol Gynradd yn ddiweddar. Dewisodd y Rheithor Miss A.C. Jones, Glanllyn i fod yn Warden iddo ac etholwyd Mr. James Jones, Dwyros i fod yn Warden i'r bobl. Etholwyd y Cyngor Plwyfol Eglwysig a derbyniwyd y fantolen. Diolchwn i Mr. Cledwyn Williams am roi benthyg yr ysgol inni at y gwaith yma.

## UNDEB Y MAMAU

Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn y Rheithordy'n ddiweddar. Offrymwyd y gweddiau gan y Rheithor a llywyddwyd gan Mrs. Williams, y Rheithordy. Tynnwyd allan raglen ddiddorol a chynhwysfawr ar gyfer tymor 1976-77. Mwynhawyd cwpaned o de wedi ei baratoi gan Mrs. Williams y Rheithordy. Gwnaed trefniadau hefyd ynglŷn â'r trip fydd yn mynd i Stratford on Avon ddydd Sadwrn, 19eg Mehefin. Bydd croeso i unrhyw un o aelodau'r eglwys a chyfeillion uno gydag Undeb y Mamau i ddod ar y trip. Y gost fydd £1.50.

## GWAELEDD

Pan ar fynd i'r wasg deëllir fod Mrs. Williams, Tŷ'r Ysgol, yn yr ysbyty ym Mangor ac eiddunwn iddi adferiad buan. Da yw deall hefyd fod Mrs. Jones, Lyndale a Miss A.C.Jones, Glanllyn yn gwella'n foddhaol. Deëllir hefyd fod Mr. John Williams, 49 Glanffynnon, wedi ei daro'n wael.

## BEDYDDIO

Yn oedfa bore Sul, Mai 2, yn y Capel Mawr bedyddiwyd Richard Gavin, mab Douglas a Pat Thomas 7 Mountain View. Gwasanaethwyd gan y gweinidog, y Parch. W.O.Roberts.

## CLWB YR HENOED

Cynhaliwyd Noson Goffi er budd Clwb yr Henoed gan Staff Cegin yr Ysgol Gynradd. Gwnaed elw o £91.28. Diolchwyd i bawb am eu gwasanaeth gan Mr. Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, a chefnogwyd gan y Parch. W.O.Roberts, Llys Eiddon.

## MARWOLAETH

Syfrdanwyd y pentref pan glywyd am farwolaeth sydyn Mr. Sam Davies, 5 Plastirion. Colled fawr i'w deulu, ei bentref ac Eco'r Wyddfa. 'Roedd bob amser yn barod ar y Sgwâr gyda'i stori fisol i'r Eco. Ein cydymdeimlad llwyraf â'i deulu.

## ENILLWYR ARHOLIADAU

Enillodd Dwynwen Parry, Ceulan, Pontrhythallt, sy'n aelod o Ysgol Sul M.C. Pontrhythallt fedal aur yn Arholiad Ysgolion Sul (MC) Cylch Caernarfon. Bu i'r rhain hefyd ennill gwobrau am eu gwaith : Iola Jones, Wern; Gwen Oliver Jones, Eryri; Nigel Griffith, Pant Tirion (Eglwys MC Llanrug) a Gwen Lloyd Williams, Tanygaer (o Eglwys Pontrhythallt).

## PWYLLGOR Y BAND

Cynhaliwyd pwyllgor ar Fai 13eg gyda Mr. Charles W. Jones yn y gadair. Cydymdeimlwyd a theulu Mr. Sam Davies, 5 Plastirion. Yr oedd ef yn gyn-aelod o'r Band.

## H.M.S. INDEFATIGABLE (PORTHAETHWY)

Bydd Tony, mab Mr. Neville Thomas, ysgrifennydd y Band, yn gadael i ddilyn gyrfa ar y môr. Bu Tony yn aelod ffyddlon o'r Band ac mae dymuniadau da'r Band, y pwyllgor, a'r ardal yn mynd hefo fo.

## DIGON O DDEWIS YN YSTOD CARNIFAL LLANRUG

**Eleni cynhelir Wythnos Garnifal Llanrug o Fehefin 6 hyd y 12fed, a chynigir rhaglen amrywiol dros ben i drigolion y fro.**

Bydd Mr. Gwyndaf Evans (Gwyndaf) yn arwain **Cymanfa Ganu** ar y nos Sul a chymerir rhan gan Wythawd o Fand Arian Llanrug a Mr. Raymond Jones, Caernarfon.

Nos Lun cynhelir **Tombola** yn yr Ysgol Gynradd. Noson i bobl ifanc fydd nos Fawrth, sef **Disco** yng nghwmni "Unit Two" a D.J. Kevin yn Ysgol Glanmoelyn. Rhoir cyfle i blant dan 11 oed i ddawnsio o 7.30 hyd 9.00 o'r gloch ac yna i bob oed o 9 tan 10.45 o'r gloch. Yn dilyn y **Daith Gerdded Noddedig** am 6 o'r gloch nos Fercher cynhelir **Gêm Bêl Droed** rhwng yr ieuenctid a merched ieuanc Llanrug yng nghae Ysgol Brynrefail. Am 6.30 nos Iau cynhelir **Gêm Bêl Rwyd** yn yr Ysgol Gynradd, ac yna am 7 o'r gloch **Noson Goffi** ac **Adloniant Ysgafn.** Yng nghae Ysgol Brynrefail ar y nos Wener cynhelir y **Mabolgampau.** Daw hyn â ni at y diwrnod mawr ei hun, sef dydd Sadwrn, Mehefin 12fed, — a diwrnod **Carnifal Llanrug** fydd hwn! Dechreuir yr orymdaith am 1 o'r gloch ym Mhontrhythallt ac yna dechreuir y beirniadu.

Cynhelir **Cinio a Dawns** y Carnifal yng Ngwesty'r George yng Nghricieth gyda'r nos a bydd Mrs. Joan Williams, Llys Llywelyn, Mrs. Dilys Jones, Llys Orwig neu H.E.Jones, Y Fedwen yn falch o dderbyn eich henwau a'ch pres!

# Croesair Rhif 4



**AR DRAWS**

1. Cymdeithas wleiddyddol! (5)
5. Hadau Ŷd (5)
7. Di-wifr (5)
8. Gostwng (5)
9. Defnydd meddal yng nghwrw Beryl (5)
10. Tref gadeiriol (5)
11. Llidiart (3)
12. Sgwrsio (7)
16. Mae tri o'r rhain yn gwneud S.O.S. (3)
17. Oddi ar – amser (3)
19. Dewisiad drwy bleidleisio (7)
24. Eilwaith (3)
25. Gwraig (5)
26. Gwroniaid (5)
27. Y flwyddyn hon (5)
28. Celwyddog (5)
29. Gwrthwynebydd (5)
30. Pryfed bach coslyd (5)

**I LAWR**

1. Cas wy! (7)
2. Tref ar arfordir de Cymru (8)
3. Aderyn y ddrycin (6)
4. Esgyll (6)
5. Brenhinfainc (6)
6. Cryfhau (5)
13. Deg cant (3)
14. Fe all y ferch hon fod yn nai! (3)
15. Mynd ar neges (8)
18. Cadeiriau di-gefn (7)
20. Gair arall am oed (6)
21. Mis (6)
22. Sarrug (6)
23. Carreg fawr (5)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel un llythyren : ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th. Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law. Dyddiad Cau : Mehefin 26.

Anfoner y cynigion i Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

**Atebion Rhif 3**

**AR DRAWS**: 3. Coedwig; 7. coeden; 8. gweddol; 9. dyledion; 11. dawn; 12. dydd Sadwrn; 17. cwsg; 18. yn eisiau; 19. syrthio; 20. tirion; 21. enfysau.

**I LAWR**: 1. pocedau; 2. adeilad; 3. Caerdydd; 4. digon; 5. iseldir; 6. telyn; 10. ochain; 13. ysgythan; 14. weithiau; 15. neithiwr; 16. truenus; 17. cyson; 18. yfory.

**Enillydd Croesair Rhif 3**: Gareth Roberts, Gregynog, Llanrug.

Diolch i Mrs. C. Williams, Gwelfryn, Llanrug am drosglwyddo ei gwobr i Gronfa Eco'r Wyddfa.

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



**Croeso cynnes mis Mai i chi – "Mynnwn pe nef a'i mynnai/ Pe'i ddeuddeng mis fo mis Mai" meddai Dafydd ap Gwilym. Gyda llaw, mi dderbyniais i ddwy gerdd i 'Ffŵl Ebrill' – cerddi eitha' da hefyd – ond yn rhy ddiweddar i'w cynnwys. Codwch yn gynt y tro nesaf!**

'Roedd hi'n braf gweld llond capel o blant bach Deiniolen yn Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Cilgwyn. Y côr yn canu'n fendigedig, y côr adrodd yn llawn deilwng o'u gwobr, a'r cystadleuwyr unigol yn llwyddiannus iawn hefyd. Da iawn Deiniolen, a phob hwyl i chi ym Mhorthaethwy yr wythnos nesaf. Mae 'na dalent ym mro Eco'r Wyddfa onid oes, – Llanberis yn cario'r faner i Lanelli y llynedd a blwyddyn Deiniolen yw hi eleni.

Croeso i ddau "alltud" atom. John Morris, Aberdaron, ond sydd â'i wreiddiau yn ddwfn ym mhridd bro Eco'r Wyddfa. Diolch am y cerddi amserol o gofio dadorchuddio'r gofeb a fu i'r "dewra' o'n hawduron" yn Llanberis yn ddiweddar. Tyrd adra' eto'n fuan, John – bydd pob croeso yn y "Llannerch".

J.R.Jones o Frynsiencyn, Môn, yw awdur y gerdd i "Frenhines yr Wyddfa". Bu ef yn naddu ei fara beunyddiol am flynyddoedd o grombil yr Elidir, ac mae'n ymfalchio yn y ffaith iddo fod yn "un o hen hogia'r Barics". Croeso cynnes i chwithau, J.R.Jones, a chroeswch y Fenai atom yn fuan eto.

**BRENHINES YR WYDDFA**

Beunyddiol ddadorchuddio
fu iddi er cyn co',
o ddyfal dynnu'r llenni
gan barod werin bro.

Nid cŷn a gordd cerflunydd
a naddodd gernlun hon,
Mae'n bod er mowldio'r mynydd
a deil yn newydd sbon.

Aeth degain mlynedd heibio
er pan welais hon fy hun,
ond gwn ei bod hi yno
mae Hi a'r Wyddfa'n un.

J.R.JONES,
Brynsiencyn.

**"A'R DEWRA' O'I HAWDURON"**

**GADAEL**

Ni ddychwel dyddiau ysgol
Na miri Coleg 'chwaith;
Wynebaf yr Anwybod
Ar lwybrau dirgel daith;
Nid oedaf mwy ar Bont Penllyn
Na throi i'r Coleg ar y bryn.

Fe dderfydd tinc ebillion
A grwnan yr inclên;
Caf ffoi o wg y creithiau
Sy'n hagru'r mynydd hen.
Ond mynnwn ran o ddur fy nhad
A thawel ffydd hen ŷd y wlad.

Ddifyrred cwmni'r hogia'
Ar ganllaw'r bont fin hwyr.....
Daeth gwermod y gwahanu,
Fe'u collaf, Duw a ŵyr.
Ond mynd sydd raid i geisio'r hud
Sy'n awr yn crwydro yr holl fyd.

**CHWILIO**

Yn erwau'r hen brydyddion
Yn ceisio nefoedd gêl,
Y wlad a roddai imi
Ddigymar laeth a mêl.
Mi genais innau gan neu ddwy
Pan fynnai f'enaid drysor mwy.

Ni chefais hi er cloddio
Yn naear llawer bro –
Ardudwy o brid chwedlau
A chymoedd gwŷr y glo.
Chwilio oedd gwŷs yr hud a wnaed
Yn ysfa wyllt i gorddi 'ngwaed.

Blinodd y gragen fregus,
A cherddodd dydd ymhell.
Hi ddaeth, anorfod noswyl
A du gysgodion cell;
Y teithiwr mwy ni fentra gam.
A dderfydd nwyd yr eirias fflam?

**DYCHWELYD**

Yng nghwmni hen atgofion,
Diferion dyddiau gynt,
A'm corff yn gelain adwyth
Fe'm gyrrwyd ar fy hynt
I'r ardal lwyd ym mhen-draw-byd
A chanfod yno'r dirgel hud.

Caf yno'r paent a'r pwyntil
Yng ngolud gwerin dlawd,
Mae cynfas yng Nghwm Peris,
Af yno ar fy rhawd.
Mae f'enaid yno'n rhodio'n rhydd
O boen y cnawd a chell Caerdydd.

JOHN MORRIS,
Aberdaron.


# E.W.&M.WILLIAMS



## Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

**BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS!**

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL


## AR WERTH

**Dau 'Storage Heater'** mawr – fel newydd. £5 yr un. Ffôn: Caernarfon 3719.

**"Sink Unit Base"** heb y top. Mewn cyflwr da. £15. Caernarfon 3719.

**"Stainless Steel Sink Top Single Drainer"** (ochr dde) 42" x 21" £7. Mrs. Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis.

**Restmor Pram, Matres a Basged. Cot gyda matres.** Y cwbl mewn cyflwr da. Ymofynner â Mrs. Pritchard, Llys Awel, Nant Peris.

**Teledu** (du a gwyn) 12" 2 flwydd oed ac mewn cyflwr da. 33, Glanffynnon, Llanrug.

**LLANRUG. SEMI.** Stafell fyw/ fwyta, cegin, 3 llofft, stafell molchi, toilet ar wahân, carpedi a chyfleusterau eraill. Car Port a garej (25'x10'), gardd o flaen ac un eang tu cefn. Ymholiadau i S.Roberts, 19 Stad Glanffynnon, Llanrug.

**Cadair olwyn/pram** Marnet las tywyll – fel newydd. £25. Ffôn: Felinheli 558.

## YN EISIAU

**Carafan** fechan, 2 berth. Pris Rhesymol. Ffôn: Abersoch 2482.

**HYSBYSEBWCH YN ECO'R WYDDFA DYDIO'N COSTIO DIM!**

Anfonwch at
Siân Thomas,
Foelas,
Stryd Newton,
Llanberis.
(Ffôn : Llanberis 220)

**YN EISIAU**

**HELP** i gasglu hysbysebion Eco'r Wyddfa. Cyfle i gynorthwyo papur bro mewn modd ymarferol. Rhoddir hyfforddiant llawn yng nghwmni casglwr profiadol. ORIAU – fel sy'n gyfleus; tua 4 awr yr wythnos. TÂL – Rhywfaint tua'r petrol! Ymofynner â John Roberts, Brynawelon, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4121 est. 312.

## Dyddiadur y Mis

**Mai 29, nos Sadwrn** Am 6.30 cynhelir cyfarfod pregethu Eglwys Ebeneser, Deiniolen. Y pregethwr fydd y Parch. Ted Lewis Evans, Rhyl.

**Mai 30, dydd Sul** Am 10, 5.30 cyfarfod pregethu Eglwys Ebeneser Deiniolen. 2 o'r gloch y pregethwr fydd yr Athro J. Alwyn Charles, Bangor.

**Mehefin 1–5** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhorthaethwy.

**Mehefin 2, nos Fercher** Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

**Mehefin 6, dydd Sul** Am 10, 2 a 5.30 cyfarfodydd pregethu Eglwys Sardis, Dinorwig. Y pregethwr fydd y Parch. Dafydd H. Edwards, Langton.

**Mehefin 6–12** Wythnos Garnifal Llanrug.

**Mehefin 7, dydd Llun** Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yn y Ganolfan, Llanberis am 2 o'r gloch.

Sefydliad y Merched, Deiniolen yn cyfarfod yng nghwmni Mr. W.M. Hughes, Rhiwen.

Undeb y Mamau, Penisarwaun yn cynnal Noson Goffi.

Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb Pêl Droed Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

**Mehefin 8, dydd Mawrth** Clwb yr Henoed, Deiniolen yn cyfarfod.

Cangen Llanrug o Ferched y Wawr yn cyfarfod pryd y bydd Mrs. Sidi Roberts yn arddangos "Trefnu Blodau"

**Mehefin 9, nos Fercher** Cangen Merched y Wawr Bethel yn mynd ar wibdaith i Ynys Môn.

**Mehefin 10, nos Iau** Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru Llanberis. Enwau i Mrs. Ann Pritchard neu Mr. Bert Parry cyn Mehefin 3ydd.

Clwb Blodau'r Grug, Llanrug yn cyfarfod yng nghwmni Mr. I.B.Griffith.

**Mehefin 11, nos Wener** Cwm-y-glo. Cynhelir cyfarfod Agored gyda'r A.S. y cynghorwyr sir a dosbarth yn yr Ysgol Gynradd.

Gyrfa Chwist yn neuadd Eglwys, Penisarwaun am 7.30.

**Mehefin 12, dydd Sadwrn** Llanberis. Gwibdaith dan nawdd y Cyngor Eglwysi i Ddolwar Fach.

Gwibdaith flynyddol Clwb Eryri i Wlad Llŷn.

Cynhadledd Arfon o Blaid Cymru.

**Mehefin 14, dydd Llun** Clwb Methedig Eryri – gwibdaith i Langollen. Bws yn cychwyn am 1.30 – enwau i Mr. Ted Thomas.

Gyrfa Chwist dan nawdd St. Johns yn y Ganolfan, Llanberis am 7.30.

**Mehefin 16, nos Fercher** Cangen Merched y Wawr Cwm-y-glo yn mynd ar daith ddirgel.

Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

**Mehefin 17, nos Iau** Noson Goffi dan nawdd Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan, Llanberis am 6.30. Arwerthiant o waith y methedig – mynediad : 10c.

**Mehefin 17–23** Carnifal Penisarwaun.

**Mehefin 18, nos Wener** Cangen Bethel o Sefydliad y Merched yn dathlu penblwydd y gangen yn 30 oed gyda swper yng Nghastell Rhuthun.

**Mehefin 19, dydd Sadwrn** Cangen Plaid Cymru Deiniolen yn mynd ar Daith Ddirgel.

Gwibdaith Clwb yr Henoed Llanberis.

Gwibdaith Flynyddol Undeb y Mamau i Stratford upon Avon.

Taith Gerdded dan nawdd Pwyllgor Carnifal Llanberis.

**Mehefin 21, dydd Llun** Clwb Methedig Eryri'n cyfarfod yng Nghanolfan Llanberis am 2 o'r gloch.

Merched y Wawr Deiniolen yn cyfarfod.

Gyrfa Chwist dan nawdd Clwb Pêl Droed Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

**Mehefin 22, dydd Mawrth** Cyfarfod Misol o Glwb yr Heulwen Penisarwaun. Cyfarfod Misol o Sefydliad y Merched Penisarwaun.

Clwb yr Henoed Deiniolen yn cyfarfod.

**Mehefin 24, nos Iau** Sefydliad y Merched Llanberis yn mynd ar Daith Ddirgel.

**Mehefin 25, nos Wener** Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun am 7.30.

**Mehefin 26–Gorffennaf3** Wythnos Garnifal Cwm-y-glo.

**Mehefin 28, dydd Llun** Clwb Methedig Eryri yn cyfarfod yng Nghanolfan Llanberis am 2 o'r gloch.

Gyrfa Chwist dan nawdd y St. Johns yng Nghanolfan Llanberis am 7.30.

**Mehefin 30, nos Fercher** Bingo dan nawdd Plaid Lafur Llanberis yn y Ganolfan am 7.30.

**DYDDIADAU I'W COFIO**

**Gorffennaf 4–10** Wythnos Garnifal Seindorf Deiniolen.

**Gorffennaf 9–17** Wythnos Garnifal Llanberis.

**Gorffennaf 14** Taith Gerdded Eglwysi Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun er budd Cymdeithas y Beiblau a Chymorth Cristnogol.

**Gorffennaf 17** Taith Gerdded dan nawdd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Bethel.

[illegible] rhai o'r [illegible] rhifyn Mai [illegible] Dywed T.H. [illegible] ffrwydriad [illegible] 'chwarelwr' [illegible] am ddiod [illegible] 1869 [illegible] Caernarfon. [illegible] eu hamgylch- [illegible] Bwydwyd y tuniau hyn [illegible] Edward St., ac Evan Jones, [illegible] fe'i gelwir yn Evan Will- [illegible] am y troliau ac nid chwar-

# [illegible]ewch a D'eud

[Y]chydig o lathenni ar ôl i'r ddwy drol fynd heibio i orsaf Cwm-y-Glo, ac wrth ymyl Cors Llwyncoed, rhwng warws yn perthyn i'r orsaf a thyrpeg Penllyn, ffrwydrodd y 'nitro-glycerine'. Credir fod y troliau wedi dod i lawr yr allt fechan ger yr orsaf yn rhy gyflym, a bod y troliau wedi cael eu hysgwyd gormod (nid oes angen gwreichion tân i ffrwydro 'nitro-glycerine'). Yn ôl yr Herald Gymraeg, Gorffennaf 2, 1869, "Y peth cyntaf a welid oedd fflam, ac yna mwg yn ymddyrchafu am filltiroedd o amgylchedd. Wedi cyrraedd i'r lle.........y peth amlycaf a welid oedd dau dwll dwfn yn y ffordd...... a lanwyd â dŵr i lefel yr afon gerllaw. Y prif arwyddion eraill o'r [illegible] ydoedd swp deifiedig a *chrebachlyd o geffyl*, a darn maluriedig a llosgedig o fod dynol". Yn ôl yr hanes, yr oedd Cors Llwyncoed yn frith o ddarnau o gyrff, a chafwyd traed a choesau dyn wrth dyrpeg Penllyn. Daethpwyd o hyd i ddarn o drol wrth reilffordd [illegible] ym Mrynrefail, a darnau eraill yn cynnwys harnais y ceffylau wedi eu chwalu hyd Greigiau Llwyncoed ac ardal y Clegir. [illegible] yr holl ddarnau o gyrff dynol mewn cynfasau a'u cario i'r [illegible] agosaf, sef Craig y Don.

### PWY OEDDYNT?

Y rhai a laddwyd oedd David Roberts, certiwr, Edward St., Caernarfon; Evan Jones, 18 oed, Tyddyn Llwydyn; Robert Morris, Penn[illegible], Bethesda, a oedd newydd ddychwelyd o'r America [illegible] yn Chwarel Glynrhonwy; Griffith John Pritchard, 13 oed, [illegible], a fu farw o'i glwyfau y bore wedyn; a John Jones, 11 [illegible] Cwm-y-Glo a fu farw yn hwyr y noson honno. Y rhai a anafwyd [illegible] oedd : Richard Williams a Hugh Williams, Gwynfryn, [illegible] Robert Thomas Jones, Cwm-y-Glo; Edward John Edwards, [illegible] John Williams, 'Rallt Goch; Owen Roberts, Cwm-y-Glo; [illegible] Jones, Cwm-y-Glo; ac Owen Owens, Tanlon, Llanrug.

### Y CWEST

[illegible] y cwest am 6.00 nos Iau, Gorffennaf 1af, yn festri [illegible] M.C. Cwm-y-Glo. Yn ystod yr holi daeth y ffeithiau canlynol [illegible] : Gwelwyd y ddau gertiwr gyntaf o'r tu allan i'r "Blue [illegible]" yng Nghwm-y-Glo ac iddynt wedyn fynd i'r "Alexandra Inn". [illegible] Mrs. Mackenzie, y perchennog, iddynt gael glasiad o [illegible], ond eu bod yn berffaith sobr ac yn dawel cyn gadael. [illegible] wedi cael yr argraff o ddyn cydwybodol yn David Roberts, [illegible] wedi gadael iddo gael y cwrw yn ddi-dâl gan iddo addo [illegible] yn ôl o'r Chwarel, wedi iddo dderbyn tâl am y cludiant. [illegible] ar ddiffyg gofal a difaterwch y certwyr yn y cwest, [illegible] a ddyfarnwyd oedd "i'r marwolaethau ddigwydd [illegible] 'nitro-glycerine', ac iddo ffrwydro'n ddamweiniol".

### ARCHWILIAD

[illegible] i'r ffrwydriad, cafwyd gwarant i archwilio adeiladau [illegible] Nghaernarfon, ac aethpwyd â llawer o ffrwydron allan i Afon [illegible] boddi. Yr oedd tair trol arall yn llawn 'nitro-glycerine' yn [illegible] wrth dyrpeg Bodrual, ond gwrthodwyd rhoi caniatâd i'w [illegible] lwytho'r cwbl i droliau ysgafnach a diogelach. Er [illegible] y certwyr yn anfodlon iawn mynd â'r llwyth oddi [illegible] Bethesda.

[illegible] golled mewn bywydau, bu llawer o ddifrod yn ardal [illegible]. Dinistriwyd llawer o'r warws, gorsaf y rheilffordd, a [illegible] heb fod lawn ei orffen wrth ymyl". Gwnaethpwyd [illegible] a waliau bron bob tŷ yn y Cwm, ac yn Llan[illegible] drysau tai yn agored. 'Roedd pobl Bangor a'r [illegible] fod daeargryn wedi digwydd.

[illegible] oedd y Fricsan yn bod fel tafarn y pryd hynny. [illegible] wedi eu cario i'r dafarn **agosaf** sef Craig y Don, [illegible] dywedir fod **gwesty heb fod lawn ei orffen** [illegible] Mae'n eithaf posibl fod y Fricsan wrthi'n cael ei [illegible]

**D. Whiteside Thomas.**

# CWM-Y-GLO

### GWYL UNDEB Y MAMAU

Eleni y mae Undeb y Mamau yn dathlu ei ganmlwyddiant ac i nodi'r amgylchiad yr oedd gŵyl fynyddol Undeb y Mamau yr Esgobaeth yn cynnwys pasiant o hanes Undeb y Mamau o'i ddechreuad. Yr oedd Mrs. Watkins, Dolwen, Mrs. Orritt a Cynthia, Morannedd, Mrs. Roberts, Bodgwynedd, Mrs. Williams, Nant Forgan a Mrs. Williams, Y Rheithordy yn cymeryd rhan. Miss Roberts, Y Fron, Llanrug, oedd yn cludo'r faner.

Cynhaliwyd cyfarfod o Undeb y Mamau yn ddiweddar i drefnu rhaglen ar gyfer gwaith y tymor nesaf a fydd yn dechrau ym mis Medi. Darparwyd lluniaeth gan Mrs. Roberts, Ty'n Ffridd a Mrs. Roberts, *Bod Gwynedd*. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Williams, Y Rheithordy, a hi hefyd a ddywedodd y gweddiau ac a lywyddodd.

### GWAELEDD

Y mae Miss Roseveare, Tan y Rhiw, yng nghartref Ceris, Bangor ac anfonwn ein cofion ati gan obeithio y bydd adref cyn bo hir.

### YN YR YSBYTY

Dymuniadau gorau'r ardal am wellhad buan i Mrs. Helen Roberts, Llwyncoed Bach.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mr. Graham, Fron, 'Rallt Goch, a gafodd ddamwain.

### CYFARFOD AGORED

Cynhelir cyfarfod agored gyda'r Aelod Seneddol, y Cynghorwyr Sir a Dosbarth ar yr 11eg o Fehefin yn yr Ysgol Gynradd.

### WYTHNOS Y CARNIFAL

Trefnodd Pwyllgor y Cae Chwarae Wythnos y Carnifal fel a ganlyn:
Mehefin 26 – Taith Gerdded.
Mehefin 27 – Cymanfa Ganu yng nghapel y Tabernacl.
Mehefin 28 – Gemau Pêl Droed i dimau merched a thimau plant.
Mehefin 29 – Noson Gymdeithasol ar gyfer y pensiynwyr.
Mehefin 30 – Gêm Bêl Droed Gwŷr yn erbyn Ieuenctid.
Gorffennaf 1 – Rownd Derfynol Dartiau.
Gorffennaf 2 – Chwaraeon.
Gorffennaf 3 – Carnifal.
Cynhelir popeth allanol yn y cae chwarae eleni.



Bydd yn rhaid i'r Dr. Eirwen Gwynn sicrhau ein bod yn cael dosbarth nos yn rhywle yn yr ardal ar gyfer peintio ac addurno y tymor nesaf. Cymerwch chi'r ddwy enghraifft yma:—

Daeth i'm clyw y dydd o'r blaen am anffawd un o brifathrawon adnabyddus yr ardal hon. Teimlai yn egniol iawn un diwrnod, a phenderfynodd ymgymeryd â'r gwaith o beintio'r ffenestri. Heb yn wybod iddo 'roedd ei wraig hefyd wedi meddwl gwneud yr un peth, ond ar ôl agor y tun paent cymerodd rhywbeth arall ei meddwl a gosododd y caead yn ôl heb ei gau yn ddiogel. Aeth y prifathro druan i nôl y paent. Meddyliodd yn sicr fod y tun angen ei ysgwyd cyn ei ddefnyddio. Druan ohono, ni ellid ei adnabod, ac oni bai ei bod yn fis Mai, gellid tybio yn siwr mai dyn eira a safai yno, ac nid y prifathro. 'Rwy'n siwr iddo gael trochfa fythgofiadwy a'r tro nesaf y bydd yn mynd i beintio mae'n sicr o wneud yn siwr fod caead y tun wedi ei sicrhau.

Dyn o Lanrug yn lliwio'r ystafell wely – tair wal yn 'lilac' a'r llall yn biws. Rhedodd allan o baent piws – ac aeth i'r garej i nôl mwy. Gorffennodd o'r diwedd. *Daeth* y mab bychan i mewn.

"Be 'da chi isio tri lliw, Dad?"

"Be' wyt ti'n feddwl – tri lliw– dau liw sydd yma". Aethant ymlaen i ddadlau. Daeth ei wraig i mewn. Bu bron iddi lewygu wrth weld fod y wal biws erbyn hyn yn ddau liw. Hanner yn biws a'r hanner arall yn las tywyll (royal blue). Ond mae'r brawd yn taeru hyd heddiw fod y wal yr un lliw i gyd – sef piws! Dr. Eirwen Gwynn, drosodd i chi.

Ydi'r straeon yn wir? Cyn wired â phader. Pwy oedden nhw? O, wel, cyfrinach Draenog ydi honno

### SAETHU PONT Y FRICSAN



*Chwalwyd hen bont y Fricsan y mis diwethaf i wneud lle i ffordd osgoi Cwm-y-glo. Rhyfedd meddwl fod 107 o flynyddoedd er pan fu y "Ffrwydriad Mawr" arall bron iawn yn yr union fan.*

# TAN-Y-COED

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Enid Wynne [illegible] Llety Llwyd, aelod o Ysgol S[illegible] Eglwys M.C. Tanycoed, am e[illegible] y Fedal yn yr Arholiad Ysg[illegible] edig Cymanfa Dosbarth [illegible] narfon. Gwobrwywyd [illegible] Gymanfa ym Moreia [illegible] ar Fai 16. Hefyd yn y[illegible] fa gwobrwywyd [illegible] Jones, Hafod O[illegible] Ellen Roberts, [illegible] Dafydd Gregor[illegible] Deg.

Hefyd b[illegible] llwyddiann[illegible] a gwobrw[illegible] arfod Hena[illegible] usalem, Be[illegible]

### GENEDI[illegible]

Llongyfarc[illegible] David Ash[illegible] ar enedigae[illegible] chwaer i K[illegible]

### CYDYM[illegible]

Ar Fai 18 [illegible] Arfon bu [illegible] Jones, 1[illegible] Caernarfon [illegible] Cwm-y-glo [illegible] a Mrs. M[illegible] E.J.Jones.

### Y GYM[illegible]

Diddor[illegible] yn ystod [illegible] fodolaeth [illegible] ygol". [illegible] meddyg [illegible] hon yn [illegible] deithas. [illegible] Williams [illegible] hyn o [illegible] Ymgyng[illegible] Gogledd [illegible] i'r diwe[illegible] iams, [illegible] gynt, a'i [illegible] ddisgybl[illegible] Brynref[illegible]

Dywe[illegible] deithas [illegible] o'r dat[illegible] iaith G[illegible] syfrdan [illegible] mor ys[illegible] drafod [illegible]

NEU[illegible]
AR[illegible]
AM [illegible]
D[illegible]
FF[illegible]

# CYFARFOD ATHLETAU YSGOL BRYNREFAIL

**Daeth blwyddyn arall o gystadlu rhwng pedwar tŷ yr Ysgol i ben ddydd Iau, y 13eg o Fai, gyda'r cyfarfod Athletau. Marciau'r Eisteddfod, y rhedeg traws gwlad, y chwarae pêl droed a hoci'n cael eu cyd-gyfrif â'r rhain, a'r cyfanswm yn rhoi Elidir ar y blaen unwaith eto.**

Er nad oedd y mwyafrif o blant yr ysgol yn cystadlu, 'roedd digon i'w diddori tra'n cefnogi hwn a'r llall yn rhedeg, neidio neu'n taflu, ac ar ôl cyfrif y marciau ar ddiwedd y dydd daeth Elidir yn gyntaf gyda 240, Gwyrfai 206, Eilian 162 ac Eryri'n olaf gyda 136.

Bydd y goreuon ym mhob cystadleuaeth wrth gwrs yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yng Nghyfarfod Athletau Arfon ym Mangor, ac oddi yno, os yn llwyddiannus, i'r Cyfarfod Cenedlaethol yn Abertawe.

Dyma restr o brif wobrau'r dydd. Y mae enwau'r rhai fu'n llwyddiannus ym mhob cystadleuaeth ar dudalen y plant.

Victor Ludorum – Maldwyn Williams (Gwyrfai) yn ennill 35 pwynt. Vitrix Ludorum –Marian Williams (Elidir) 26 pwynt. Gwobr am y perfformiad gorau: Bechgyn Ieuaf – W.Sinclair–naid uchel. Genethod Ieuaf–Alison Jones–naid hir. Bechgyn Dafydd Evans–rhedeg 'sprint'. Genethod Iau–Carol Ann Jones–rhedeg 800 metr. Bechgyn Hynaf–Emyr Roberts–naid uchel. Genethod Hynaf–Julie Clarke–yn gyntaf mewn pedair cystadleuaeth.

# CHWARAEON



*Dyma enillwyr y cystadleuthau, Julie Clarke ac Emyr Roberts yn cynrychioli Elidir ac yn dal y cwpan gyda Marion a Maldwyn Williams, y Vitrix a'r Victor un bob ochr iddynt. Yn eistedd hefyd mae enillwyr y tariannau am y perfformiadau gorau. Y Prifathro, Mr. Elfyn Thomas a'r athro Ymarfer Corff, Mr. Dick Parry, yw'r ddau arall yn y llun.*

# TARIAN YR ECO



*Dyma'r bechgyn fu'n chwarae am y Darian, a'r enillwyr Dolbadarn yn ei dal.*

Nos Fawrth, y 18fed o Fai, ac yng nghampfa Ysgol Brynrefail, y cystadlu mwyaf brwd a welwyd, ac a glywyd, yno ers peth amser.

Noson yr ysgolion Cynradd oedd hi, a phump tîm yn cynrychioli ysgolion Bethel, Cwm-y-glo, Deiniolen, Dolbadarn a Phenisarwaun yn chwarae am Darian Pêl Droed Pedwar bob ochr Eco'r Wyddfa. Brwdfrydedd y plant ar y llawr, cefnogaeth lafar gwylwyr ac aml gyngor gan yr athrawon, oll yn cyfrannu i'w gwneud yn noson fythgofiadwy.

Mr. Dick Parry fu'n rheoli'r holl chwarae, ac ar ôl egluro'r rheolau i'r plant daeth timau Bethel a Chwm-y-glo ymlaen i chwarae'r gêm gyntaf. Ar ôl deng munud, Bethel fu'n fuddugol o ddwy gôl i un, a dyna osod safon pur uchel i weddill y chwarae.

Daeth yn amlwg yn fuan mai cystadleuaeth rhwng Dolbadarn, Bethel a Chwm-y-glo oedd hi i fod am y darian, er na ellir rhoi gormod o bwyslais ar gyfraniad y ddau dîm arall at lwyddiant y gystadleuaeth. Hogia' Penisarwaun er enghraifft, heb ennill yr un pwynt yn eu gêm olaf yn erbyn Dolbadarn, – oedd eisoes wedi gwneud yn siwr o'r darian, – yn cymeryd y llawr gyda'r un brwdfrydedd ag a ddangoswyd ganddynt yn eu gêm gyntaf.

Y rhain yw goreuon yr ysgolion Cynradd, a phe bai gofod yn caniatau gellid ysgrifennu am rinwedd pob un ohonynt. Maddeuer i mi am enwi dau yn unig a fu'n feistrolgar iawn yn eu chwarae, sef Adrian Wakeham o Ddolbadarn a John Williams o Fethel, – Adrian yn wir a sgoriodd y nifer fwyaf o gôls yn ystod y noson, sef deuddeg.

Agoriad rhagorol felly i'r gystadleuaeth gyntaf am y Darian, a llongyfarchiadau i Ddolbadarn. Bydd cyfle i'r ysgolion eraill ei dwyn oddi arnynt ymhen y flwyddyn.

Hon fu trefn y chwarae, a dyma'r canlyniadau:

Bethel 2 Cwm-y-glo 1
Deiniolen 1 Dolbadarn 7
Cwm-y-glo 7 Penisarwaun 0
Bethel 3 Deiniolen 1
Deiniolen 2 Penisarwaun 0
Dolbadarn 3 Cwm-y-glo 3
Bethel 5 Penisarwaun 1
Cwm-y-glo 3 Deiniolen 1
Dolbadarn 6 Bethel 3
Dolbadarn 8 Penisarwaun 0

ac felly

| | Ch | E | Cyf | Coll | OB | YE | P't |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dolbadarn | 4 | 3 | 1 | 0 | 24 | 7 | 7 |
| Bethel | 4 | 3 | 0 | 1 | 13 | 9 | 6 |
| Cwm-y-glo | 4 | 2 | 1 | 1 | 14 | 6 | 5 |
| Deiniolen | 4 | 1 | 0 | 3 | 5 | 13 | 2 |
| Penisarwaun | 4 | 0 | 0 | 4 | 1 | 22 | 0 |

## CWPAN PANTYFEDWEN YR URDD
## AELWYD LLANBERIS 6 CWM AFON 0

**Wel, dyma hi o'r diwedd. Chwaraewyd rownd derfynol y Cwpan ar gae'r Brifysgol yn Aberystwyth ar y 15fed o Fai, a hogia'r Aelwyd yn ei chario i Lanberis am y tro cyntaf.**

Mae'n fwy na thebyg mai dyma'r tîm gorau fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth hon erioed. Fe gofiwch iddo faeddu pob aelwyd fu'n ei wrthwynebu ar y ffordd i'r ffeinal gan sgorio'n drwm iawn yn erbyn rhai ohonynt. Y mae sgôr o chwe gôl i ddim mewn unrhyw rownd derfynol yn siarad drosto'i hun, ac 'roedd hi'n amlwg yn y rowndiau cyntaf mai Llanbêr oedd yn mynd i'w sgorio.

Gellir dadlau fod eu perfformiad bron o safon broffesiynol. Roedd y cefnwyr wedi meistroli llinell flaen y Cwm, a'r bechgyn yng nghanol y cae yn rheoli'r gêm ac yn creu'r agoriadau i'w blaenwyr fanteisio arnynt. Bryn Owen a sgoriodd y ddwy gôl gyntaf, Emyr Roberts wedyn a Bryn eto'n ei gwneud hi'n 4-0 ar hanner amser.

Roedd gwynt cryf i'w hwynebau yn yr ail hanner, gan eu gorfodi i newid eu dull o chwarae. Manteisio ar gyflymdra Iwan Evans a Tony Thomas oedd yr ateb, ac Iwan a sgoriodd y ddwy gôl.

John 'Chivers' Williams, y capten, felly a aeth ymlaen i dderbyn y Cwpan. Dywedir mai hwn (y cwpan ac nid John) yw un o'r rhai mwyaf ym Mhrydain a chafwyd rhyw wamalwr yn cynnig ffonio Huw Glo i'w nôl hi.

Roedd canu ar y bysiau ar y ffordd adref, yn wir, symudwyd un cefnogwr i farddoni –

Tawel oedd hogia Cwm Afon
Hapus oedd ein hogia ni,
Y cwpan oedd ar ei ffordd i Arfon
O gae'r Coleg ger y lli"

Cystadleuaeth oedd hi rhwng y glo a'r llechen, a'r tro hwn 'roedd y llechen yn rhy finiog. Dyma aelodau'r tîm o'r chwith i'r dde.



Emyr Roberts, Malcolm Jones, Ian Jones, John W. Roberts, Elfed Morris, ac yn eistedd, Iwan Evans, Trevor A. Jones, Tony Thomas, John Ifor Jones, Bryn Owen, Gareth Williams a John Williams. Bron na ellir dweud "A'r mwyaf o'r rhai hyn yw'r cwpan, ynte" Da iawn, hogia, a phob lwc yn ei hamddiffyn y flwyddyn nesaf.